# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 462 | Mehefin 2025 | Pris £1.50


## Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Y Garreg Las 2026

Daeth tua 1,300 o bobol ynghyd i Arberth i'r Wyl Gyhoeddi gynhaliwyd yno ar fore Sadwrn, Mai 17eg. Ymunodd grwpiau cymunedol a dinesig i orymdeithio o gwmpas y dref yng nghwmni aelodau niferus Gorsedd y Beirdd ac yn ôl Betsan Moses, Prif Weithredwr yr Eisteddfod Genedlaethol, dyma'r nifer fwyaf a welwyd mewn digwyddiad cyhoeddi ers blynyddoedd maith. Bu nifer fawr o wynebau lleol yn rhan o'r seremoni gan gynnwys Daniel O'Callagan Pwll Trap, John S Davies Efailwen a Trystan Llyr Griffiths Mynachlogddu.

Cyflwynodd John Davies, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Y Garreg Las 2026, gopi cynta o'r rhestr testunau i'r Archdderwydd Mererid Hopwood. Gwnaeth hithe ddiolch i John, gan ddymuno pob llwyddiant i'r Eisteddfod gynhelir yn Llantwd ar ddechrau Awst blwyddyn nesa, cyn anerch y dorf niferus o'r Maen Llog gyda'i neges o heddwch. Cyfeiriodd yn benodol at Waldo, un o feirdd mwya'r ugeinfed ganrif ac heddychwr mawr a cafwyd anerchiad wych a grymus ganddi. Roedd y tywydd o'n plaid gyda'r haul yn gwenu ar y cyfiawn.

Mae Eisteddfod Y Garreg Las yn argoeli i fod yn un arbennig a chofiadwy tu hwnt ac mae'n wych gweld y bwrlwm a'r brwdfrydedd sy'n bodoli eisoes ar hyd y lled dalgylch yr Eisteddfod. Bydded i'r bwrlwm a'r brwdfrydedd hwnnw barhau yn ystod y cyfnod yn arwain lan i'r Eisteddfod – a thu hwnt i hynny hefyd. *Hanes y Gymanfa ganu ar dudalen 13*



Yr Ŵyl Gyhoeddi

## Cadair Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las 2026




Mae'n bleser gan Y Cardi Bach i gyhoeddi taw Tomos Lewis, yn wreiddiol o Langlydwen, sydd wedi ei ddewis i fod yn gyfrifol am ddylunio a chreu cadair Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las 2026. Nid dyma'r tro cyntaf i Tomos greu cadair ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol, gan iddo greu un ar gyfer Eisteddfod CFfI Cymru (gweler y llun) pan gynhaliwyd honno yn Sir Benfro nol yn 2022. Mae Tomos yn athro technoleg yn Ysgol Caer Elen, Hwlffordd ac yn edrych ymlaen i ddechrau ar y gwaith. Llongyfarchiadau mawr iddo, edrychwn ymlaen i weld ei gampwaith maes o law.



Taenwyd ton o dristwch dros ardal eang pan dorrodd y newyddion am farwolaeth Jill Lewis, Llanglydwen fis diwethaf. Brwydrodd Jill yn erbyn cancr dros gyfnod maith, ond ni wnaeth adael i hwnnw amharu arni o gwbwl.

Gwelir teyrnged gynhwysfawr iddi o fewn tudalennau'r rhifyn hwn.

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **I'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **<u>10fed</u>** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Ar ddiwrnod heulog a chynnes ar yr 17eg o Fai, cafodd Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod y Garreg Las 2026 ei chynnal yn Arberth. Braf iawn oedd gweld strydoedd y dref yn orlawn ar gyfer yr orymdaith liwgar, gydag ysgolion ac amrywiol gymdeithasau a grwpiau yn nalgylch y brifwyl yn cerdded o amgylch y dref. Mae digwyddiad o'r fath yn denu sylw at yr Eisteddfod wrth gwrs, yn enwedig ymhlith y rhai nad sy'n gyfarwydd â'r brifwyl. A da clywed fod yr ymateb mor galonogol wrth i eisteddfotwyr ymweld â busnesau'r dref wedi'r orymdaith a'r ŵyl gyhoeddi.

A finne'n teithio o Sanclêr i Arberth, dyma oedd y tro cyntaf i fi deithio ar yr hewl newydd ger Llanddewi Efelffre. Ac ar un cyfnod, fi oedd yr unig ar yr ffordd newydd sbon danlli, ac fe ges i bwl o banig nad oedd hawl gen i yrru arni, er mod i'n gwybod yn iawn fod y Prif Weinidog Eluned Morgan wedi ei hagor yn swyddogol rai dyddiau ynghynt. Rhaid cyfaddef, mae'n torri dipyn ar y siwrne. Ac roeddwn i wedi cyrraedd Arberth yn gynnar, ac i'r rhai sydd yn fy 'nabod, dydw i ddim yn berson hynod o brydlon.

Felly roedd digon o amser i sgwrsio gyda hwn a'r llall, wrth i aelodau'r Orsedd fynd i nôl eu gwisgoedd, ac ambell un yn rhedeg yn hwyr (yn wahanol i fi!)
Ac un anfantais pan fo'r tywydd yn braf, yn enwedig ym mis Mai, ydy clefyd y paill. Ac am ryw reswm, rydw i'n dioddef yn waeth ohono nawr nag ar unrhyw adeg yn fy mywyd. Ac wrth i'r orymdaith ddechrau o faes parcio'r dref, a sŵn offerynnau taro yn atseinio ar y strydoedd, fe ddechreuodd fy llygaid ddiferu, a phobl o fy amgylch yn meddwl fy mod o dan deimlad. Er rhaid cyfaddef fod gweld y fath olygfa, yn brofiad digon emosiynol.

Problem arall pan fo'r tywydd yn braf ydy ceisio adnabod aelodau'r Orsedd sy'n gwisgo sbectol haul, yn enwedig os ydynt yn chwifio'u dwylo tuag atai. Does dim llawer o gliwiau, gan nad oes modd gweld eu gwallt, a dyw edrych ar eu hesgidiau ddim yn gliw gwych chwaith.

Ond rhag i chi feddwl meddwl mod i'n cwyno am dywydd braf – fyddwn i ddim yn mentro, ac rwy'n croesi popeth bydd yr wythnos gyfan yn Llantwd ym mis Awst 2026 yn debyg i'r 17eg o Fai 2025. Tybed pwy sy'n cofio'r Brifwyl i lawr yr hewl yn Aberteifi yn 1976? Bydd hynny union 50 mynedd yn ôl, erbyn Eisteddfod y Garreg Las y flwyddyn nesa. Honno yw'r Eisteddfod gyntaf 'dw i'n ei chofio, digwydd bod. Ac mae'n cael ei chofio fel Eisteddfod y llwch, yn ystod yr haf crasboeth hwnnw. Ond be bynnag fo'r tywydd yn Awst 2026, mae Eisteddfod y Garreg Las yn argoeli i fod yn brifwyl wych a'r Ŵyl Gyhoeddi yn Arberth wedi ei gosod hi ar seiliau cadarn.

---

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan y Parch. Euros Jones Evans*

Un hwyrddydd heulog ynghanol mis Mai eleni, fe gefais y fraint o gynnal oedfa ddiolchgarwch am y cynhaeaf. 'Beth', fe ofynnwch, 'oedfa ddiolchgarwch ddechrau'r haf ?' Ie, oedfa ddiolchgarwch a gynhaliwyd yn un o lecynnau prydferthaf y wlad yng Nghapel Spite, Llanfynydd. Pan holais ysgrifenyddes radlon y capel, Miss Mairion Edwards, ynglŷn â'r arfer hwn, dywedodd ei bod wedi bod yn hen draddodiad i gynnal y cwrdd hwn yn y gwanwyn.

## GOHEBWYR LLEOL

| | | |
|---|---|---|
| ALMA: | Margaret Evans | 01994 230761 |
| BANCYFELIN: | Merle Jones | 01267 211300 eleanormerle@icloud.com |
| CAPELI BANCYFELIN a CANA | Parch, Beti-Wyn James | beti.wyn@icloud.com |
| BLAENWAUN: | Tegwen James | 01994 448223 |
| CAPEL MORIAH (Blaenwaun) | Meinir Eynon | 01437 563540 meinireynon@gmail.com |
| CEFNYPANT: | Valerie Davies | 01994 448475 vdavies55@outlook.com |
| CLUNDERWEN: | Delyth Roblin | 07882 639867 delythroblin@outlook.com |
| CWMBACH: | Jane Evans | 01994 448790 teulujames@btinternet.com |
| CWMFELIN MYNACH: | Nansi Evans | 01994 448392 |
| EFAILWEN: | Angharad Booth Taylor | 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| GELLIWEN: | Peter Crowdie | 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com |
| HENDY-GWYN: | Heather Jenkins | 01994 240138 jenkinsh2809@gmail.comY |
| (Newyddion Tabernacl) | Parch. Guto Llywelyn | 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com |
| HENLLAN - FALLTEG: | Sian Jackson | 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com |
| LOGIN a CWM MILES | Meinir Eynon | 01437 563540 meinireynon@gmail.com |
| LLANBOIDY: | Norah Heseltine | 01994 448241 sales@shwldimwl.com |
| LLANDYSILIO: | Delyth Roblin | 07882 639867 delythroblin@outlook.com |
| LLANGLYDWEN: | Jill Lewis | 01994 419495 jill.lluest@gmail.com |
| LLANGYNIN: | Susan Phillips | 01994 231066 siwperiw@gmail.com |
| MEIDRIM: | Patsy Lewis | 01994 230369 talarwen@hotmail.com |
| PENYBONT: | Linda Davies | 01994 484657 lindadavies02061955@icloud.com |
| PWLLTRAP: | Beti Wyn James | 01994 230966 betiwynjames@aol.com |
| RHYDYCEISIAID: | Doreen Adams | 01994 240581 |
| RHYDWILYM: | Eilir Davies | 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com |
| SAN CLER: | Beti Wyn James | 01994 230966 betiwynjames@aol.com |
| TRELECH: | Alyson Harries | 01994 484359 alysonharries@outlook.com |

Cyffesodd na wyddai pa bryd y dechreuwyd gwneud hynny. Pan ofynnais i'r gynulleidfa addolgar gynnes yno a wyddent am gapeli eraill sy'n cynnal oedfa ddiolchgarwch yr adeg hon, ni allent enwi un. Efallai bod rhai o ddarllenwyr y golofn hon yn gwybod. Os ydych cofiwch ein hysbysu am hyn.

Mewn gwirionedd, dim ond inni ystyried y peth, does dim o'i le mewn cynnal cyrddau diolchgarwch ar ddechrau tymor yr hau a'r tyfu. Neilltuo achlysur i ddod ger bron Duw, pan fydd y ddaear yn deffro, y glaw yn disgyn, yr haul yn tywynnu a bywyd newydd yn dechrau tyfu. Achub cyfle i ddiolch iddo am sglein cynnes cwysi newydd, am wyrth yr hadau a blannwyd mewn gobaith, am egin gwyrdd yn bidogi drwy'r pridd, ac am yr addewid o gynhaeaf sydd eto i ddod. Cydnabod hefyd ein dyled i'r rhai sy'n gofalu am y ddaear - y ffermwyr a'r garddwyr, a diolch am rythmau'r greadigaeth sy'n siarad am ffyddlondeb Duw. Hyd yn oed cyn i'r cnydau gael eu casglu, onid iawn cynnig ein diolchgarwch am ddarpariaeth Duw, gan ymddiried mai ef yw Arglwydd y cynhaeaf?

Felly y mae mis Mai yn ein hatgoffa mai nid rhywbeth ar gyfer yr hydref yn unig yw diolchgarwch am y cynhaeaf. Y mae bendithion Duw yn newydd bob bore ac fe ddaw â'i ddarpariaeth inni dymor ar ôl tymor, gam wrth gam.

Cyngor y salmydd yn Salm 67: 5-6 yw 'Bydded i'r bobloedd dy foli, O Dduw, bydded i'r holl bobloedd dy foli di yna rhydd y ddaear ei chnwd; Duw, ein Duw ni, a'n bendithiodd.' Yn ôl yr Ysgrythur fan yma, amod llwyddiant tyfiant y tir yw bod y bobl yn moli ac addoli Duw ac yn diolch iddo'n gyson.

Cofiwn hefyd y dylai'r cynhaeaf gyfeirio ein meddyliau at wirionedd ysbrydol. Dywedodd Iesu yn Luc 10-2 , 'Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin.' Dylai'r cynnyrch cynnar y byddwn yn eu cywain ein hatgoffa fod yna gynhaeaf ysbrydol hefyd: bod ar bobl angen clywed y newydd da am Iesu Grist, a bod yna fywydau sy'n barod i gael eu cyffwrdd gan ei gariad. Felly wrth inni ddiolch i Dduw am y bwyd sydd ar ein byrddau, blas y pridd ar y tato a harddwch y greadigaeth o'n cwmpas, bydded inni ymroi ein hunain i fod yn weithwyr yn ei gaeau trwy hau hadau caredigrwydd, cyfiawnder, gobaith a ffydd fel y byddo ein bywydau ni yn dwyn ffrwyth a fydd yn dod â gogoniant iddo Ef.

Ddiwedd mis Mai, cafodd fy mhriod a minnau y fraint, gyda channoedd eraill, o fod mewn cwrdd diolchgarwch gwahanol, sef diolch am fuchedd gwraig a gyfrannodd yn helaeth i fywyd dlwylliannol, crefyddol a chymdeithasol y fro hon a hefyd yn genedlaethol fel llywydd Merched y Wawr. Cyfeirio wyf at arwyl Jill Lewis a gynhaliwyd yng Nghapel Bethel, Mynachlogddu. Meddyliais yn yr oedfa mai gresyn mawr ynghanol tymor yr adfywio a'r tyfiant; ynghanol mwynder Mai pan fo perci sir Benfro yn arddangos eu gwyrddlesni ffein, fe ddaeth y Medelwr Mawr ei hunan i gynaeafu cyn pryd gan dorri o'n plith wraig a mam a mam-gu a chwaer gyda'r hawddgaraf. Cafodd Jill ei dwyn ymaith ym mlodau ei bywyd. Yn sicr yn ystod ei bywyd fe daenodd bersawredd ei phersonoliaeth ar bawb a'i hadnabu. Diolch am oedfa oedd yn cydnabod y math o gymeriad gloyw y mae'r capel a'r Ysgol Sul yn medru ei feithrin. Yn yr oedfa ddiolchgarwch hon gallem, fel y mynegodd Waldo, 'ymdeimlo'r ffynhonnau'n torri tua'r nefoedd ac yn syrthio 'n ôl a'u dagrau fel dail pren.'

Dywed y salmydd yn Salm 107:11-12, 'Bydded iddynt ddiolch i'r Arglwydd am ei ffyddlondeb ac am ei ryfeddodau i blant dynion. Bydded iddynt ei ddyrchafu yng nghynulleidfa'r bobl, a'i foliannu yng nghyngor yr henaduriaid.' Gadewch inni gynnal cyrddau diolchgarwch waeth pa dymor yw: yr hydref neu yn y gwanwyn, a gadewch inni ddal eu cynnal er clod i blant Duw.

# Clonc a Phosau John Arfon

Unwaith eto yn ystod yr wythnosau diwethaf collodd amryw o'r ardal anwyliaid arbennig iawn. Mae eich colled yn anferth a gallaf ond gyfleu ein cydymdeimlad dwysaf a'r holl deuluoedd. Boed ichwi gofio yr amser llawen a gawsoch yn eu cwmni ac i Dduw eich cysuro dros yr adeg trist a blin hyn.

Bu'r Ffair Fwyd a gynhaliwyd ym Mharc Doctor Owen ar y Sul cyntaf o Fai, ar ddiwrnod bendigedig o braf, yn llwyddiant ysgubol. Roedd nifer fawr ac amrywiol o stondinau yno ac yr oedd lluniaeth a diod at ddant pawb i'w gael. Rwy'n amcan gyfrif fod dros 3500 wedi mynychu yn ystod y dydd a roedd digon yno i ddiddori'r plant a'r bobl hyn.

Llongyfarciadau mawr iawn i Joseff Edwards (Bysiau Cwm Tâf) am greu y fenter i geisio codi arian at wahanol elusennau. Rwy'n siwr ei fod ef a phawb arall fu'n helpu yn bles iawn ond hwyrach yn eithaf blinedig ar ddiwedd y dydd.

Bum yn siarad gyda nifer o bobl o bell ac agos ac yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain ac yn edrych ymlaen am ddod yno flwyddyn nesaf hefyd.

**Dyma atebion y mis diwethaf**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | O | X | X | O | O |
| O | X | O | O | X | X |
| O | X | O | O | X | X |
| X | O | X | X | O | O |
| O | X | X | O | X | O |
| X | 0 | O | X | O | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 1 | 6 | 3 | 7 | 8 | 4 | 5 | 2 |
| 4 | 3 | 8 | 1 | 5 | 2 | 6 | 9 | 7 |
| 7 | 5 | 2 | 9 | 4 | 6 | 8 | 3 | 1 |
| 5 | 6 | 7 | 4 | 3 | 9 | 2 | 1 | 8 |
| 8 | 2 | 9 | 7 | 6 | 1 | 5 | 4 | 3 |
| 3 | 4 | 1 | 2 | 8 | 5 | 9 | 7 | 6 |
| 6 | 7 | 3 | 5 | 2 | 4 | 7 | 8 | 9 |
| 1 | 8 | 4 | 6 | 9 | 7 | 3 | 2 | 5 |
| 2 | 9 | 5 | 8 | 1 | 3 | 7 | 6 | 4 |

**Cwrosw a Chwilrif i'ch diddori**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | O | | | X |
| | | O | | | O |
| | O | | | X | |
| | | | O | | |
| O | | | | X | |
| O | | | | | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | | | 3 | | | 9 | | |
| | 8 | | | | | 6 | | |
| | | 6 | | | 8 | | | |
| | | 5 | | 4 | | | 6 | 1 |
| | | 4 | 7 | | | | | 5 |
| 3 | 1 | | | 5 | | | 2 | |
| | | | 2 | 1 | 6 | 7 | | 9 |
| 5 | 2 | | | | | | | |
| | | | | | 5 | | 4 | |

Rhaid imi ymddiheuro fy mod wedi gadael allan cliw 17 ar draws croesair rhifau y mis diwethaf. Y cwestiwn oedd "Sawl chwaraewr sydd mewn tîm rygbi" ac hefyd 25 i lawr Dylai hwn fod "Sawl hen geiniog sydd mewn £38-5s-8c"

**Dyma atebion y Croesair Rhifau**

Ar Draws
1. 1771, 4. 1961, 7. 20, 8. 8040, 9. 48, 10. 28, 11. 60, 12. 52, 14. 1926, 17. 15, 18. 21, 20. 10, 21. 57, 22. 42, 23. 81, 24. 56, 25. 20, 26. 1851, 28. 01, 30. 79, 31. 40, 32. 11, 34. 4840, 35. 24, 36. 1815, 37. 4480.

I Lawr
1. 1215, 2. 70, 3. 1881, 4. 1066, 5. 64, 6. 1865, 13. 2240, 15. 9188, 16. 2015, 17. 1760, 9. 12, 21. 55, 25. 2011, 26. 1945, 27. 1404, 29. 1840, 33.18, 35.28.

**Atebion y pôs Y Llwybr Igam-Ogam**
1.Sarff, 2. Fflach, 3. Chwys, 4. Saim, 5. Merch, 6. Chwip, 7. Plwc, 8. Caib, 9. Berf , 10. Fyny, 11. Ynys, 12. Sioc, 13. Cnau, 14. Unig, 15. Gwall, 16. Lloer.

Yra ateb a gewch yn y blychau llwyd oedd ***Caerwys.***

**Dyma'r pôs cyntaf y mis hwn**

Trefnwch a gosodwch y llythrennau yn y golofn gyntaf, a'u rhoi i mewn yn y blychau gwag odditano. Os gwnewch hyn yn gywir bob tro, yna dylech gael dyfyniad adnabyddus o'r Beibl.

| C R W Y | A A I R Y | A A R R | A D F I O | A S W | D O R Y | Ff R | H T Y | C Dd O R Rh | A I N O | G I R | H I O Y | B H N Y | A M N Th Y | A A I N | A A E Th | D R Y | C W Y | A M N |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ■ | | | | ■ | | | | ■ | | ■ | | | | ■ | | |
| ■ | | | | | ■ | | | | ■ | | | | | | | ■ | | |
| | | | | ■ | | ■ | | | | ■ | | | | ■ | ' | | ■ | |
| | | | | ■ | ' | | ■ | | | | ■ | | | | ■ | | | ■ |
| | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | ■ | ■ |

**Yr ail bôs yw cwblhau'r croesair**

| | | |
|---|---|---|
| T | I | D |
| R | ■ | U |
| A | R | ■ |

| | | |
|---|---|---|
| R | ■ | ■ |
| Y | N | Y |
| Ch | ■ | M |

| | | |
|---|---|---|
| S | G | L |
| ■ | R | ■ |
| G | U | Dd |

| | | |
|---|---|---|
| ■ | C | A |
| E | ■ | S |
| D | A | T |

| | | |
|---|---|---|
| E | N | C |
| ■ | I | ■ |
| L | Ch | G |

| | | |
|---|---|---|
| O | ■ | F |
| M | I | R |
| ■ | ■ | Y |

| | | |
|---|---|---|
| ■ | G | ■ |
| S | ■ | E |
| ■ | O | ■ |

| | | |
|---|---|---|
| I | A | D |
| D | ■ | E |
| I | A | D |

| | | |
|---|---|---|
| I | E | U |
| A | ■ | N |
| D | I | O |

Gosodwch y darnau uchod mewn trefn i greu croesair yn y grid odditano

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |

## Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr, Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,
Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi â'r clwb. Braf yw gweld sawl un wedi ymaelodi oddi ar y rhifyn diwethaf, fel y gallwch weld yn y rhestr islaw.

Gofynnaf yn garedig i'r sawl sydd heb ymuno eto, i wneud, drwy ddanfon siec i mi am £10 yn daladwy i 'Clwb 200 y Cardi Bach', neu dalu drwy system BACS y banc. Rhif didoli'r banc yw 40-46-27 a rhif y cyfrif yw 91020765. Lle mae angen cyfeirnod, rhowch eich enw chi fan hyn.

Cofiwch fod y gwobrau misol yn £20 a £30!

Dyma enwau'r sawl sydd wedi ymaelodi gyda'r clwb yn ddiweddar:-

Angela Murray, 2 Piccadilly, Llanboidy
Grug a Michael Fussell, Dolfan, Efailwen
Anne James, Arfryn, Pwll-Trap
Roy Llewellyn, Bro Gronw, Cwmfelin Mynach
Merched y Wawr, Cangen Hen Dŷ Gwyn,

Llongyfarchiadau i enillwyr lwcus fis Mai:-
£30 - 457 - Siôn Thomas, San Clêr
£20 - 389 - Daniel Undabarrena Jones, d/o Wilma Robins, San Clêr

Diolch yn fawr a chadwch yn ddiogel,

*Rhian*



# Caffi Beca

Agorwyd y Caffi Beca gwreiddiol ar Mai 13eg 1964, ar achlysur dathlu 125 mlynedd ers dymchwel y tollborth cyntaf yn Efailwen ar Mai 13eg 1839, wnaeth arwain at gychwyn Terfysg Beca. Dyma sut cafodd y caffi yr enw yn y lle cynta.

Mae Robert James wedi bod yn berchen y caffi ers 1993 ac yn ystod y cyfnod clo, adeg Covid, ar ddiwedd Mawrth 2020, cafodd dipyn o amser i feddwl gan fod popeth wedi dod i stop. Roedd e'n mynd lawr i'r caffi yn achlysurol er mwyn sicrhau fod popeth yn iawn yno. Roedd y tywydd yn braf iawn adeg hynny ac mae'n cofio sefyll tu fas y caffi ac edrych draw tua'r Preselau ac edmygu'r olygfa hyfryd oedd yn ei wynebu. Ychydig fisoedd cyn hynny roedd Robert a'r teulu wedi bod ar wyliau sgio yn yr Alpau yn Ffrainc ac yn cymharu'r golygfeydd gyda'r Preselau. Dyma sut gafodd e'r weledigaeth a'r ysbrydoliaeth i fwrw ati i ddatblygu'r safle ac i adeiladu caffi newydd fyddai'n manteisio'n llawn ar olygfeydd godidog y Preselau.

Trafodwyd syniadau a cyflwynwyd cais i Gyngor Sir Caerfyrddin yn 2022, dechreuwyd ar y gwaith o greu mynediad newydd a llwybr yn 2023. Derbyniwyd caniatad cynllunio a dechreuwyd adeiladu'r caffi newydd ar ddiwedd y flwyddyn honno. Cwblhawyd y gwaith ar ddiwedd mis Mai eleni ac agorodd y caffi'n swyddogol ar Mehefin 3ydd. Mae'r freuddwyd wedi ei gwireddu ac mae'r caffi newydd yn adnodd gwerthfawr a pwysig i'r ardal. Mae'r busnes yn cyflogi 8 o staff lleol, yn llawn amser, yn ogystal â chyflogi criw bychan o ieuenctid lleol yn achlysurol - felly'n cefnogi'r economi leol ar yr un pryd.

Gwneir pob ymdrech i ddefnyddio cynnyrch cyflenwyr lleol a gobaith Robert yw y bydd y trigolion lleol a'r cymdeithasau cymunedol megis Hoelion Wyth Beca, Merched y Wawr Beca, Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd, Sefydliad y Merched Glandwr, Ffrindiau Mewn Ymddeoliad Maenclochog, Undeb Ffermwyr Cymru ac ati yn parhau i'w gefnogi yn y dyfodol. Mae'n le delfrydol i gynnal partion penblwydd, te angladdau, ciniawau ac ati – ma wastod croeso cynnes a bwyd bendigedig yng Nghaffi Beca.


*Dymuniadau gorau i Robert, Delyth a'r teulu yn ei menter newydd, maent yn haeddu pob cefnogaeth (Gol)*



Robert a Delyth James yng nghwmni eu staff hawddgar a chyfeillgar.



Mrs Annie James, (mam Robert) a fu'n torri'r rhuban i agor y caffi newydd yn swyddogol. Gwelir Robert a rhai o'r staff yn y llun hefyd







# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

## Y GAIR ADDAS

Cwblhewch y frawddeg drwy ddewis y gair cywir:

1. Dof i adref cyn saith o'r gloch ……………………………
   a) echnos b) neithiwr c) heno ch) y nos 'ma

2. Dydyn ni ……………………wedi ymweld a Sbaen.
   a) byth b)erioed c) o flaen ch) gynt.

3. Ewch a'r llythyr 'ma ………………………………
   a) i Swyddfa'r Post b) i'r Swyddfa Post c) i'r Swyddfa'r Bost (ch) i Swyddfa Post

4. Edrychwch ar y cloc a dywedwch …………………………
   a) beth yw'r gloch b) faint o'r gloch yw hi c) faint ydy'r amser ch) beth amser yw hi

5. Pryd cyrhaeddodd y tren ………………………?
   a) Caerdydd b) i Gaerdydd c) yng Nghaerdydd ch) Gaerdydd

6. Fe aeth Jac a Jill i fyny'r bryn ………………………………
   a) gyda'i gilydd b) gyda'u gilydd c) gyda'n gilydd ch) i'w gilydd.

7. 'Do, ebe'r dyn, fe …………………………ni'r tren.
   a) ddaliwn b) ddalion c) ddalien ch) ddaliwyd

8. 'Esgusodwch fi…………………………estyn yr halen ?
   a) ga'i b) wnewch chi c) fyddwch chi ch) ydych chi'n.

9. Mae rhaglen dda ar y teledu heno. Bydd rhaid i mi ei ………………
   a) weld b) chwilio ch) wylio.

10. Yn y tŷ yma rydych chi'n byw?…………………………………………
    a) Ydw b) Do c/ Ydy ch) Ie

11. Cyn ………………………………fe welais y ffilm.
    a) i fi mynd b) es i c) fynd ch) i mi fynd.

12. Bydd rhaid i ti dorri'r bara ……………………………
    a) a chyllell b) gyda chyllell a) a cyllell ch) gyda cyllell.

13. Gyrrodd Dewi'r car …………………………dy. a) heibio b) heibio i'r c) heibio'r ch) heibio i.


14. Ennill y gem a wnaeth Caerdydd yn y diwedd…………………wrth gwrs.
    a) Do b/ Ie c) Gwnaethan ch) Oedd.

15. Rhaid i ti …………………………smygu yn y swyddfa.
    a) a) beidio b) ddim c) peidio ch) beidio yn.

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA
CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

DAVIES
Builders Merchants
Cyflenwyr ADEILADU a D.I.Y
Arddangosfa ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar agor



Ffon
Hendygwyn: 01994 240 228
San Cler: 01994 230 239
www.daviesbm.co.uk




HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



# MERCHED Y WAWR

## Cangen Gronw

Ar brynhawn dydd Mercher braf, ar Fai 21ain, teithiom ni i Bentre Celyn, Ffynnon-ddrain, cartref Nia Evans a'i phartner Colin.  Nia sydd wedi sefydlu cwmni Bodlon – cwmni sy'n gwerthu nwyddau Cymraeg a Chymreig.

Mae Nia wedi olrhain tipyn o hanes y teulu, ac aeth â ni yn ôl i gyfnod melinau gwlân Drefach Felindre, a chysylltiad ei theulu gyda melin wlân Dyffryn yn benodol. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, doedd merched ddim yn cael gweithio yn y melinau, heb sôn am gael eu rhedeg! Cyfeiriodd at brysurdeb y diwydiant gwlân adeg y Rhyfel Byd Cyntaf, pan oeddent yn cynhyrchu brethyn i wneud crysau i'r bechgyn oedd yn ymladd yn ffosydd Ffrainc.

Dywedodd hanes perthynas oedd yn weinidog a darlithydd enwog. Cymaint oedd y galw i ddod i wrando ar John 'Gomer' Lewis yn pregethu, fe aeth ynghyd â chodi capel 'Gomer' ym Maesteg, oedd yn dal dros fil o bobl. Ar ddiwrnod ei angladd yn Nrefach Felindre bu rhaid trefnu bod rhagor o drenau yn rhedeg er mwyn cludo pobol i'r angladd.

Rhieni Nia oedd yn rhedeg Siop y Seld yn Stryd y Brenin, Caerfyrddin, siop oedd yn gwerthu nwyddau lledr, lluniau, anrhegion a theganau o safon. Cyn dod yn ôl i Gaerfyrddin, bu ei rhieni yn rhedeg siop yn Nhonypandy, a dysgodd ei thad y grefft o drin lledr i wneud gwaith crydd, a nwyddau megis cyfrwyon, a bagiau ysgol – sef y 'satchel' lledr oedd mor gyffredin cyn oes y 'rucksack'! Ar ôl te blasus cawsom gyfle i brynu nwyddau yn y siop. Diolchwyd am y croeso a'r hanes difyr.  (Llywydd am y prynhawn oedd Valerie Davies a diolch iddi am y deyrnged hyfryd i Jill).

Cofion ni hefyd am Jill, a fu'n  Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr, a gollodd ei brwydr yn erbyn cancr ar nos Sadwrn, Mai 10fed. Yn ferch ei milltir sgwâr o blwyf Mynachlog-ddu, roedd Jill o hyd yn llawn bywyd, yn siriol bob amser, a bron byth heb rywbeth i'w ddweud!

Thema ei llywyddiaeth oedd Cerdded, Cerdd a Chynefin. Yn ystod gwanwyn 2023, daeth pedair cangen – Hendygwyn, Sancler, Gronw ac Alma, at ei gilydd yng Nghanolfan Hywel Dda yn yr Hendygwyn, i gerdded hyd at adfeilion yr Abaty, lle cawsom grynodeb o hanes yr Abaty gan Margarette, yna yn ôl i'r Ganolfan, lle bu aelodau o'r canghennau yn darllen cerddi oedd yn berthnasol i'w hardaloedd a mwynhau pecyn hyfryd o fwyd a baratowyd gan Christine, oedd yn rhedeg y caffi ar y pryd.

Ymunodd Jill â ni ar y dydd. Dywedodd fwy nag unwaith cymaint roedd hi wedi mwynhau teithio drwy Gymru a dod i adnabod ardaloedd ac aelodau o ganghennau Merched y Wawr. Roedd hi o'r farn y dylai pob merch fod yn aelod o Ferched y Wawr! Yn wir, roedd hi'n ffaelu deall pam na fyddai unrhywun yn aelod o Ferched y Wawr!

Cawsom ei chwmni fel cangen mewn cinio yn Nantyffin ar ddechrau cyfnod ei llywyddiaeth ym mis Medi 2021. Diolchwn ein bod wedi cael ei hadnabod. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w gŵr Eurfyl a'r teulu, gan ddymuno y bydd rhannu'r atgofion lu sydd gan cymaint o bobol amdani, yn gysur iddyn nhw. Coffa da amdani.

Braf oedd croesawu aelod newydd, sef Marina Evans ac mae croeso bob amser i aelodau newydd.
Wedi derbyn nifer o syniadau wrth yr aelodau, bydd y swyddogion yn cwrdd yn ystod yr hâf i drefnu rhaglen y tymor nesaf.




Yr aelodau yn Bodlon, Pentre Celyn

### Cangen Gronw yn dathlu'r Aur

Eleni 'rydym yn dathlu 50fed penblwydd y gangen. Byddwn yn dathlu ar brynhawn Iau, Medi 25ain (yn union y dyddiad dechreuodd y gangen), yng Ngwesty yr Hen Ysgol San Clêr. Estynnwn wahoddiad i unrhyw gyn-aelodau i ymuno gyda ni yn y dathliad. Cysylltwch â Mary Phillips ar 01994 448333.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES Y GWRES A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i GWMNI
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

## Cangen Hendygwyn

Yr 20fed o Fai oedd dyddiad ein trip blynyddol ni eleni ac fe gychwynon ni yn y bws o Hendygwyn am 1 o'r gloch. Galwon ni am awr fach yn Vincent Davies yn Hwlffordd cyn mynd lawr i berfeddion Sir Benfro i ymweld â Melin Tregwynt. Roedd yn ddiwrnod bendigedig o braf a'r wlad yn llawn o flodau gwyllt ac yn edrych ar ei gorau.

Ar ôl mwynhau te blasus yn y bwyty, buon ni'n gwylio'r peiriannau'n nyddu'r carthenni hardd ac yna rhaid oedd gwario arian yn y siop foethus. Y mlaen â ni wedyn i Borth Gain i edrych ar y môr ac i hamddena yn yr oriel luniau cyn mynd i'r Sloop i fwynhau swper hyfryd yng nghwmni'n gilydd. Cytunodd pawb ein bod wedi cael trip wrth ein bodd a diolchodd Ann Glanville i bawb a oedd wedi gwneud y trefniadau.



Yr aelodau tu allan i'r Sloop ym Mhorthgain

## Cangen San Cler

Cyfarfu'r aelodau yn Bodlon, Ffynnonddrain ar nos Fawrth, Mai 13eg. Croesawyd ni yno gan Nia, perchennog Bodlon a chawsom gyflwyniad hynod diddorol (i gyfeiliant storm ffyrnig o fellt a tharanau) lle bu'n olrhain hanes ei theulu o ardaloedd Drefach Felindre a Chapel Iwan a'u cysylltiad â'r melinoedd gwlan yn yr ardal honno. Yn dilyn y cyflwyniad aethom i siop a bwyty Bodlon lle mwynhawyd paned a chacen a chyfle i chwilota a phrynu yn y siop. Noson hyfryd. Diolchodd Eileen i Nia am ei chroeso ar ran y gangen.

Cydymdeimlwn fel cangen â Eurfyl Lewis a'r teulu ar farwolaeth Jill, Cyn-lywydd Cenedlaethol y Mudiad. Jill oedd y siaradwraig wadd pan fuom yn dathlu'r aur fel cangen a buom hefyd yn cerdded fel rhan o'i phrosiect fel Llywydd Cenedlaethol. Mae gennym atgofion melys o fod yn ei chwmni ar sawl achlysur.

Cydymdeimlwn hefyd â Jane ar farwolaeth trist ei nith yn Llandysul.

Ar nodyn hapusach dymunwn benblwydd hapus i Olive a oedd yn dathlu penblwydd arbennig ar Fai 18fed.

Ar Fai 19eg cynhaliwyd cystadleuaeth Radi Thomas y Rhanbarth. Llongyfarchiadau mawr i Lilwen ar ennill gyda threfniant blodau ar y thema "Llwybr i'r Gofod" ac i Iona ar ennill y gystadleuaeth llun / ffotograff o gât. Pob lwc iddyn nhw yn y Sioe Fawr.

# Corlan

Yn ddiweddar collodd aelodau Corlan chwaer, chwaer yng nghyfraith a ffrind annwyl, sef Jill Lewis, a oedd wedi bod yn aelod o'r côr ers y cychwyn, dros ddeunaw mlynedd yn ôl. Bu Jill yn aelod brwd a ffyddlon o Corlan ar hyd yr amser, a bu'n ysgrifenyddes am dros bymtheg mlynedd.

Treuliom nosweithiau difyr yn ei chwmni wrth fynd o gwmpas cyngherddau a nosweithiau llawen yn diddanu pobl yr ardal a gwahanol rannau o dde a chanolbarth Cymru, yn ogystal â mynd ar deithiau i Slofenia a Barcelona. Byddai'n cyflwyno'r eitemau yn ei ffordd unigryw ei hunan, a chofiwn am ei hiwmor iach ac am y nosweithiau cymdeithasol a rannom.

Hiraethwn am y dyddiau da yn ei chwmni, ond trysorwn yr holl atgofion hapus sydd gennym. Diolchwn am ei hafiaith at fywyd, a hyderwn y bydd ei halaw yn dal i ganu'n y co'.

Ac yng ngeiriau y gân mwyaf diweddar i ni ei chanu:

Atgofion sydd mor bêr,
Yn gysur ac yn gryfder,
Goleuni ar ein taith,
Yn nerth i'r galon graith.



| Cyfraniadau | |
|---|---|
| Llinos Thomas, Llangynin | £10 |
| Elizabeth White, Hendygwyn | £10 |

*Diolch yn fawr*

# Teyrnged i Jill Lewis

*gan Tegwen Morris ac Aled Eynon*

**Tegwen:**
Annwyl deulu a ffrindie,
Cychwynwn gyda geiriau ein Archdderwydd Mererid Hopwood;

Drwy'n hiraeth, Jill, enciliwn – yn dy wên
dyner, a diolchwn
drwy glwy'r haf, drwy'r galar hwn
am alaw un mewn miliwn

A dyma un sydd wedi cyrraedd gan Brifardd arall, Dafydd John Pritchard:

'Dwn i'm pam, ond dwi'n amau na welaf
yn haul y Preselau
ddim ond haf y gaeaf gau
a'i niwloedd a'i gymylau.

**Aled:**
Amhosib yw trial gweud popeth am Jill yn yr amser sy da ni ma heddi, a dweud y gwir, allen ni fod ma nes bore fory, ond ma'r teulu wedi gofyn i ni sôn ychydig amdani a rhannu rhai atgofion. Er bydd dagrau yma heddi, mae'n anodd bod yn ddiflas ac yn drist pan yn son am Jill. Mewn gwirionedd, diflastod yw'r gair diwethaf sy'n dod i'r meddwl, oherwydd fel gwyddoch, nid oedd byth amser diflas i'w gael yn ei chwmni.

**Tegwen:**
Ganed Jill ar y 29ain o Fedi ym 1964, hi oedd y pumed plentyn i Ben a Glenys Owens, yn chwaer fach i Janet, Wyn, Ann a Huw ac yn chwaer fowr i Nia. Cafodd ei geni ym Mhenrallt cyn i'r teulu symud draw i fyw yn Llwynhelyg pan oedd Jill yn dal yn blentyn. Roedd teulu yn eithriadol o bwysig i Jill ac yn parhau felly hyd y diwedd.

Mynychodd Ysgol Gynradd Mynachlogddu ac yna Ysgol y Preseli cyn mynd ymlaen i Goleg y Drindod yng Nghaerfyrddin a gwneud cwrs Dyniaethau. Yma fel yn yr ysgol fe wnaeth lu o ffrindiau. Daeth Delyth, Mandy, Sue a Debbie yn ffriondiau oes - a ffurfiwyd cyfeillgarwch arbennig rhyngddynt. Roedd Jill yn meddwl y byd o'r bedair a rydym ni gyd yn gwybod eich bod chi'n meddwl y byd o Jill hefyd. Ar ddydd Gŵyl Dewi eleni ar un o'r niferus benwythnosau ffrindiau Coleg fe ddaeth y criw i Aberystwyth i weld y parêd. Byddwn ni'n adrodd ambell englyn arall i Jill yn ystod y deyrnged a dyma un wrth Aled:

Yn ei byw bu'n llenwi'i byd, a'n selog
I seiliau bro'i mebyd;
Yr asbri yn yr ysbryd,
A'i hwyl ynom ni o hyd.

Ar ôl graddio o'r Drindod bu'n gweithio gyda Rhian Evans a Llyfrau Llafar Cymru fel y'i adnabyddir heddiw. Wedyn bu'n gweithio yn Ysgol Gynradd Crymych a wedyn yn Ysgol Gynradd Hermon – dyma ddisgrifiad y pennaeth, Maureen George ohoni. "Roedd Jill yn dda iawn am chwarae'r piano ac yn hoff iawn o ganu. Daeth yn amser cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Y Parti Unsain oedd un o'i hoff gystadlaethau. Ennill yn yr Eisteddfod gylch nifer o weithiau, ac ennill yn Eisteddfod y Sir a mynd trwyddo i'r Genedlaethol a chael mynd i ardal wahanol bob blwyddyn. Roedd y plant a'u rhieni yn ddiolchgar iawn i Jill am hyfforddi'r plant a rhoi'r cyfle iddynt fod mewn côr ac ennill hefyd."

Bu am gyfnod wedyn yn rheoli y Ganolfan Integredig yn Crymych, cyn cael ei phenodi yn Swyddog Cefnogi Mudiad Meithrin Sir Benfro. Dywedodd Dr Gwenllian Lansdown Davies "Cofiwn amdani fel un oedd wastad yn gadarn ei barn, yn rhoi o'i gorau ac yr oedd yn arbennig o boblogaidd gyda'r Cylchoedd a'i chydweithwyr yn y Mudiad." Gofynnwyd i Mererid Hopwood gyfansoddi cerdd i Jill i ddiolch iddi am ei gwaith gyda Mudiad Meithrin, mae'r geiriau yn ddirdynnol heddiw.

"Drwy ffenest Lluest, cei weled lliwiau
Ein môr o gariad a'n diolchiadau
I un chwaer a feithrinodd gyd-chwarae
Yn ei llys, un fu'n gwrando ein lleisiau;
A heno clyw'n cân ninnau – a'n plantos
Yn ein dweud di-os; bydd gweld dy eisiau."

**Aled:**
Roedd Mynachlogddu a Capel Bethel yn golygu llawer iawn iddi – i'r pwynt, mewn cyfweliad ar soffa Prynhawn Da, fe lwyddodd Jill i enwi Mynachlogddu 10 o weithiau, a'r plant yn hoff iawn o dynnu ei choes am hynny! Ond o ddifri, bu'n mynychu'r Ysgol Sul yma, yn aelod yma drwy'i hoes, yn chware'r organ yn rheolaidd, a Rhian Isfoel y cyfeilydd yma heddi yn ffrind bore oes. Priodwyd Eurfyl a Jill yma ym 1989, gyda'r Parchedigion Eirian Wyn Lewis a Tecwyn Ifan yng ngofal y gwasanaeth. Ac wrth ofyn i Eurfyl sut nelon nhw gyfarfod, wedodd e i fod e'n gyfarwydd â Jill ers sbel gan i fod e'n mynd i Capel Login a Jill yn mynd i Bethel, felly bydden nhw'n gweld ei gilydd ac yn cymdeithasu mewn Cymanfaoedd Canu ac ati, ond mae'n debyg mai yn Tafarn Glandy Cross gwrddon nhw'n iawn!

Bu'n athrawes Ysgol Sul yma am flynydde, ac roedd y gwahanol sgripts yn wych bob blwyddyn. Ath y tri gŵr doeth i weld y baban Iesu ar quad bikes un Nadolig! Roedd wastad yn cymryd ei swydd fel athrawes Ysgol Sul o ddifri, roedd rhaid i bob sioe fod yn berffaith, i'r gradde nath hi ofyn i'w mab i hunan feimo i'r caneuon yn lle sbwylo'r canu. Wedd hi'n teimlo'n rhwystredig iawn gan fod Ifan yn gallu canu ond yn pallu, a Tomos moyn canu – ond ffeili!

Un o'r plant bu Jill yn ddysgu yn yr Ysgol Sul oedd Mari Grug, neu Mari Capel rownd ffor hyn, a rhaid oedd edmygu'r hyn wedodd Jill pan oedd yn un o'i gwesteion ar y podcast "Un mewn dau". Roedd y podcast yn trafod pob math o agweddau ar ganser ac ar fyw bywyd llawn gyda canser, a dyna yn sicr wnaeth Jill. Roedd y ffordd ddeliodd Jill gyda'r holl beth yn ysbrydoliaeth fawr i Mari, a thrwy'r podcast, i gannoedd os nad miloedd o bobol eraill mae'n siwr.

Dyma englyn i Jill gan Cerwyn Capel, tad Mari:

Hynod ferch a'i gwên serchog – ben llywydd
Bu'n llwyddo yn selog,
O'r meini a'r tir mawnog
Aeth o'i gwaith pan dda'th y gog.

Pentre arall oedd yn bwysig iawn i Jill wrth gwrs wedd Llanglydwen. Adeiladwyd Lluest yn 1990 a dyma lle

magwyd Ifan, Elen a Tomos. Dwi'n siwr bod sawl noson gofiadwy yn y Bont yn aros yn y cof a sawl digwyddiad megis diwrnodau hwyl a cynnu goleuadau'r Nadolig. Gwnaeth Jill, fel person hynod gymdeithasol, chwarae ei rhan mewn Cymuned glos a gwneud ffrindiau oes yn y pentref dros y 34 mlynedd diwethaf.

Yn Lluest mae yna arwydd ar y wal sy'n dweud "Byw'n dda, Chwerthin yn aml, Caru'n Fawr" ac yn ei amser hamdden roedd yn llenwi pob eiliad gyda amryw o ddiddordebau gan gynnwys garddio, carafanio, canu, cyfeilio, cymdeithasu a chael ambell i jinsen neu brosecco! Ar un trip i'r Ŵyl Ban Geltaidd yn Iwerddon roedd Jill ymhlith criw oedd yn canu wrth y bar a daeth merch lan aton nhw a gweud "Chi'n canu fel angylion"! A chi'n gallu dychmygu Jill yn joio ailadrodd y stori na am weddill y trip.

Un o'i hoff lefydd i fynd i garafanio oedd Tŷ Canol rhwng Tudrath a Dinas lle bydde Huw yn dod i gwrdd â nhw gyda'i botel wisgi. Hefyd roedd wrth ei bodd yn carafanio ar hyd a lled Cymru adeg yr Eisteddfod a hynny yng nghwmni hwyliog nifer fawr o ffrindiau. Ac ymhlith yr atgofion sy wedi dod am garafanio adeg steddfod y mae brwdfrydedd Jill wrth siario ei 'stick up bulbs' da'r genedl ar Radio Cymru o'i hadlen, a wedyn menyw moin llofnod Jill yn yr Iorwerth Arms Bryngwran am ei bod hi'n llywydd Merched y Wawr, wedd y fenyw druan heb gwrdd â'r llywydd o'r blaen!

O sôn am ffrindie, rhaid sôn am y criw rygbi. Rwy'n cofio mynd gyda Eurfyl yn 2004 i Ddulyn adeg y gêm ryngwladol, a gweddill y criw, heblaw Edryd, yn ddynion canol oed. Ond erbyn y flwyddyn ganlynol, wedd hi'n all change – wedd trip i'r Eidal i fod a wedd y gwragedd yn dod! So sefes i getre, un bach ifanc wen i o hyd, a wedd ddim gwraig da fi ar y pryd! Ta beth am hynny, cafodd y criw lawer iawn o hwyl ar strydoedd coblog Rhufain, ac ymysg y pethe fuodd mlân da Jill wedd dawnsio polyn rownd scaffalde a bod yn ei chanol hi mewn steddfod impromptu a gafwyd ar y trên. Dyma oedd dechre cyfres o dripie cofiadwy iawn i'r criw rygbi, a fuon nhw yn yr Eidal ddwywaith, Paris ddwywaith, Llundain ddwyaith, dwi'n credu bo nhw di bod yn bobman a pan redon nhw mas o lefydd i fynd, dechre mynd am benwthnose i ambell le agosach i getre wedyn fel Carnarfon, Bala ac fe ethon nhw i Aberaeron mor ddiweddar â mis Mowrth leni. Hefyd bydde Eurfyl yn trefnu ambell daith 'ddiwylliannol' wedwn ni, i'r criw rownd gorllewin Cymru o bryd i'w gilydd.

**Tegwen:**
Am flynyddoedd roedd Jill yn cael ei hadnabod fel "Gwraig Eurfyl" ond daeth tro ar fyd a wedyn yn sydyn daeth "Merched y Wawr Fame" a odd pobl yn dweud chi'n nabod Eurfyl "Gŵr Jill"

A sut ddechreuodd hyn i gyd – wel roedd Meryl y Llywydd Cenedlaethol lawr yn Sir Benfro mewn cinio a Jill yn tynnu coes a dweud "Bydden i'n lico cael eich job chi" ac o fewn dim i beth enwebwyd Jill yn is-lywydd Cenedlaethol ac fe gafodd gefnogaeth enfawr o bob cwr o Gymru. Yna fe ddaeth covid ac fe wnaeth Jill sicrhau positifrwydd a gwneud pob dim posibl i gefnogi aelodau a penderfynu mae cerdded oedd un o'r ffyrdd gorau i gymdeithasu yn yr awyr agored. Fe deithiodd ar hyd a lled Cymru gan gynnwys i Bontypridd pan aethom ein dwy ar goll ar fynydd Hirwaun wrth geisio ffeindio ein ffordd nôl yn y car i Glwb Rygbi Crymych! Yna fe deithiodd Jill a Eurfyl at griw Dwyfor a mynd i gerdded ar Ynys Enlli – profiad arbennig yr oedd yn ei drysori.

Cafodd ei hurddo yn Llywydd Cenedlaethol ger Carreg Waldo ym mynyddoedd y Preseli – am brofiad bythgofiadwy ac unigryw, a bu'r ddelwedd yn llun y clawr ar gylchgrawn Y Wawr. Cafwyd te awyr agored nôl gyda Nia a Jamie. Pan fu digwyddiad i anrhydeddu Jill am ddod yn Llywydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol cafodd ei phlesio yn fawr pan ddaeth Geraint Lovegreen i ganu yn arbennig iddi. Wrth gerdded Maes yr Eisteddfod gyda pawb yn dod ati, geirie Euros Blaendyffryn wedd "Ma Jill fel Rock Star"! Cafodd sawl sgwrs gyda enwogion a llun arbennig gyda Mark Drakeford y prif weinidog gyda'r Enfys o Obaith. Ei braint wedyn oedd cyflwyno yr Enfys o Obaith i Ysbyty Plant Cymru yng Nghaerdydd. Cyfrannodd yn fisol erthygl i'r Cymro ac yn chwarterol "Llaw ar y Llyw" yng nghylchgrawn Y Wawr. Er y salwch prin wnaeth Jill golli unrhyw ddigwyddiad yn ystod ei llywyddiaeth ond roedd yn glaf iawn pan bu'n rhaid colli y Sioe Fawr a hynny oherwydd iddi ddal yr eryrod – gair yr oedd yn casáu gan fod gormod o "r's" ynddo!
Mae Cangen Mynachlogddu wedi colli aelod eithriadol, rhanbarth Penfro wedi colli aelod dylanwadol a chyfeillgar a'r mudiad yn Genedlaethol wedi colli arweinydd arbennig a oedd yn ffrind i bawb.

**Aled:**
Roedd Urdd Gobaith Cymru yn bwysig iawn iddi a phan yn ifanc roedd yn aelod brwd o Aelwyd Mynachlogddu. *Ble arall?!* Ond rhyw ugain mlynedd yn ôl roedd Jill yn un o arweinwyr Aelwyd Ffynnonwen, Login, ac mae'n siwr taw uchafbwynt y cyfnod hwnnw i Jill oedd cyrraedd llwyfan Eisteddfod Genedlethol yr Urdd ddwywaith ar yr un dwrnod yn 2005 gyda'r Côr adranne dan 16 oed a'r Parti Deulais i adranne dan 16 oed. Wedd dal rhagbrofion adeg hynny cofiwch, felly roedd hyn yn dipyn o gamp i aelwyd fach fel ni. Yng Nghanolfan y Mileniwm yn y Bae yng Nghaerdydd oedd y cystadlu'n digwydd a wedd Jill wrth eu bodd o gal arwain y plant yn y fath le. Wedd hi'n dipyn o team effort y diwrnod hwnnw os dwi'n cofio'n iawn, Jill yn arwen, Ceirios yn cyfeilio, fi'n troi'r pejis a Edryd yn gorfod gofalu am gote a bags pawb! Pan ddechreuodd Jill gal trinieth wedyn am y tro cyntaf buon ni'n codi arian. Taith gerdded rownd Llys y Frân a canu carole rownd ardal Login wedd rhai o'r pethe nethon ni, a mynd maes o law lawr i Ysbyty Llwynhelyg i gyflwyno'r siec.

Yn ddiweddarach buodd Jill yn helpu mas gyda Aelwyd Crymych a wedd hi ynghlwm wrth gystadleuaeth chwarter awr o adloniant ola'r Urdd yn 2018, ac Aelwyd Crymych enillodd. Serch hyn, y peth odd Jill mwya prowd ohono fe odd bod enw Aelwyd Ffynnonwen ar y tlws gan bo ni wedi ennill y gystadleuaeth nôl yn 1998.

Fel ni wedi clywed, wedd cerddoriaeth mor bwysig i Jill,

bu'n arwain côr hwyliog Merched y Wawr yn y Steddfod genedlaethol, gan lenwi Llwyfan y Maes, bu'n cyfeilio gyda Côr Clwb Rygbi Crymych am sawl blwyddyn, gyda'i chwaer yng nghyfreth Glesni'n arwen, a sim dowt iddi gal lot fowr o sbort yng nghwmni cymeriade'r côr hwnnw.

Ac wrth gwrs, roedd yn aelod o Corlan yn Llanboidy ers y cychwyn, sef côr chwaer yng ngyfreth arall, Ceirios. Cafwyd hwyl ar lawer i drip i lefydd fel Slovenia, Barcelona, a Llanfyllin o bob man! Ac yn ogystal â bod yn Ysgrifennydd y Côr, Jill fel arfer oedd yn cyflwyno'r eiteme mewn cyngherdde. Bois bach, wedd ddim dal beth wedei, ond allech chi garantio bod e mynd i fod yn entertaining! Pan fydden ni'n mynd felle i rwle bach yn ddierth neu pan fydde mwy o growd na'r disgwyl yn rwle, felle byddech chi'n gallu senso tam bach o nerves yn y côr ond fydde Jill yn dod mlân ar y dechre i weud gair neu ddau a bydde'r gynulleidfa'n wherthin, bydde ni'n wherthin, a bydde pawb lot mwy relaxed, wedd y ddawn gyda hi i neud na.

A wedd hi'n joio gweud ambell stori yn y nosweithie hyn, a un peth am Jill, os wedd ffordd o neud i bobl wherthin, fel ma'r sais yn dweud – she didn't mind being the butt of the joke. Un o'r storie wei'n lico gweud wedd pan alwes i i weld hi blynydde nôl yn Lluest pan wedd hi'n cal trinieth gynta. Wedd dwy sesiwn o drinieth gyda hi i fynd a wedd y cynta o'r ddwy mewn cwpwl o ddiwrnode os dwi'n cofio'n iawn. Shteddes i lawr a sai'n siwr pam iwses i air mor gomic, ond be wedes i wedd 'Wel Jill ti di cyrradd dy penultimate treatment.' 'Na na Aled bach' wedodd hi, 'na na, ma un da fi fynd ar ôl hon to!

Bydde hi'n cymryd balchder mowr wrth gyflwyno'r gân Gwanwyn ein Gobaith, gan bwysleisio mai ei chwar yng nghyfreth, Ceirios, wedd pia'r alaw, a bod awdur y geirie'n foi talentog iawn o deulu talentog iawn - ei brawd Wyn wrth gwrs.

A se ni'n mynd i rwle ble wedd tipyn o rai di-Gymrag yn y gynulleidfa, bydden ni'n cal hyd yn oed mwy o sbort gyda hi wrth i Jill drial 'transplanto' teitle rhai o'r caneuon, fel Cariad bydd yn addfwyn, - darling be gentle with me tonight, a Dewch i mewn, wedd ddim dal be wedei am honno – Come Inside, Come on in, a fi'n shwr boi di cymysgu'n llwyr un nosweth a gweud 'This one's called 'Come in here – now!'

Ond yr un enwoca wrth gwrs wedd Tangnefeddwyr Waldo, a wedd hi'n joio gweud y stori ma bobman we ni'n mynd ar ôl ni, na dim the peacemakers, be wedodd Jill wedd 'This one in English is called the pacemakers'.

**Tegwen:**
Roedd ei chariad di-ffuant at ei theulu yn anhygoel, a doedd dim yn rhoi mwy o bleser iddi na gweld Ifan a Sioned yn priodi, Tomos a Elen yn prynu tŷ gyda'i gilydd a Elen a Dafydd yn cael ei hwyr cyntaf – Twm. Roedd hi mor falch i weld y tri yn setlo ac yn drist i'w gweld yn symud mas o Lluest. Er dwi'n siwr bydd y plant yn dweud bod Jill wedi trial cael eu gwared nhw ers blynyddoedd gan i Ifan fynd ar goll yn Sioe Hwlffordd yn bedwar mlwydd oed a Tomos ar goll yn Disneyland Paris yn 9 mlwydd oed!

Ond i fod o ddifri, wedd hi'n meddwl y byd o'i phlant ac yn meddwl y byd o Sioned, Dafydd ac Elen fyd – a doedd dim yn rhoi fwy o bleser iddi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, na cael y teulu i gyd gyda'u gilydd yn Lluest a mwynhau pryd o fwyd a treulio amser arbennig yn eu cwmni. Bydde hi'n mwynhau cwmni Eurfyl ambell waith fyd!

Cofiwn heddiw yn arbennig am ddylanwad a chariad Jill tuag at Twm – cannwyll ei llygad ac fe welodd Jill Twm bob dydd, os nad yn y cartref yna ar facetime. Dim pob mamgu sy'n medru dweud hynny! Ma Twm yn fachgen bach annwyl, cariadus, direidus a doniol ac yn sicir wedi etifeddu rhinwedde wedd mor nodweddiadol o'i famgu.

Ond cofiwch mae Eurfyl yn cofio ar ôl i Tomos gael ei eni, fe'n gofyn a oedd mwy i fod ac ateb Jill oedd "Gronda ma gwd boi, ma tri o blant 'da ni'n barod"

I am Ifan
E am Elen
T am Tomos,

a mae hynna yn gwneud IET a ma'r iet ma wedi cau!

Oedd roedd hiwmor arbennig a chariad di-dor at y teulu agos ac estynedig a'i ffrindiau ar draws Cymru, a bydd atgofion eithriadol i'w trysori.

Collwyd Jill yn llawer rhy gynnar a dyma ddau englyn a ysgrifennwyd i ddathlu ei phen-blwydd yn 60 oed y cyntaf gan Elen, partner Tomos,

Chwe deg a'n chwa o egni, yn ei hwyl
Hi yw haul fis Medi,
Yn nerth, hi yw'n cryfder ni,
Un lew a'i gwên yn gloywi.

a'r llall gan Aled:


Hanner llawn yw ei gwydr llon, a hwyl
Ei theulu yw'r moddion,
Y Wawr, ym mhob pryderon,
Sy' o hyd ym mynwes hon

**Aled:**
Ychydig ddiwrnodau ar ôl i Jill farw, roeddwn yn gwylio rhaglen ar y teledu a daeth dywediad lan ar y diwedd gan fenyw o'r enw Helen Keller a meddylies i, dyna'n gwmws beth fydde Jill moyn i ni feddwl - ac mae'n mynd fel hyn :- Tra bod y cof am ffrindiau annwyl a chariadus yn fyw yn fy nghalon, gallaf ddweud bod bywyd yn dda.

Diolch Jill am ddangos i ni bod "bywyd yn dda" ac am ddangos gwmint allwn ni neud os newn ni byth roi miwn.

**Tegwen:**
Mae dau air yn disgrifio yr hyn oedd yn allweddol bwysig i Jill sef "Cymuned a Charedigrwydd" ac yn wir fy mraint oedd ei galw yn boss ond yn bwysicach o lawer yn ffrind. Oedd mi oedd yn berson unigryw, llawn bwrlwm a'r wên hudol na odd yn denu pawb. Braint ac anrhydedd oedd cael dy adnabod Jill ac ar ran Cymru gyfan – diolch.

# Cysgodion Hên Greigiau




Dannedd y Diafol, Traeth yr Hen Wrach, Clogwyn y Ffrwd Wen, Carreg y Fuwch - pwy a ŵyr pa ddirgelion sy'n gorwedd yn dawel yng nghysgodion tywyll y creigiau yma a hynny heb son am y Tŷ Gwag sy' ar bwys! Ond daw storom sydyn i godi'r llen ar y cyfrinachau cuddiedig.

Unaith eto mae Alun Morgan ac Elizabeth, ei wraig, yn sylweddoli eu bod yng nghanol dirgelion peryglus sy'n bygwth heddwch arferol cefn gwlad yr ardal ond 'sneb o'r gymuned yn ymwybodol ohonynt.

Am y pedwerydd tro mae John Gwynne yn ein tywys ar hyd lwybrau ei gynefin i ddadansoddi dirgelion tywyll yn ei nofel ddiweddara' - Cysgodion Hen Greigiau.

Mae'r awdur, unwaith eto, yn torri ar draws ymddeoliad haeddiannol ei arwr John Morgan i sicrhau na fydd byth yn colli ei ddoniau rhyfeddol - y rhai rydym ni, y darllenwyr yn gyfarwydd â nhw erbyn hyn.

Lwc oedd hi bod Morgan gerllaw pan dorrodd y storm ar y lan yn agos i draeth Llangrannog gan achosi damwain ar draeth Pwll Gwyn; lwcus hefyd ei fod gerllaw pan glywodd waedd frawychus y dyn lleol ar y darn o dir gyferbyn a'r Tŷ Gwag yn Nantawen; a thrwy lwc roedd yno hefyd pan ddaethpwyd o hyd i'r croesau bychain pren.

Mae Morgan yn heneiddio ac yn pwyso mwy a mwy ar gymorth parod Elizabeth, ei deulu a'i ffrindiau i'w helpu i ddod i'r afael a'r ddirgelion.

Mae bron bob pennod naill ai'n ddirgelwch ei hunan, neu'n dwysau dirgelion y bennod flaenorol ac yn gofyn mwy o gwestiynau. Pwy neu beth welodd Morgan tu ôl i'r ffenestr llofft yn y Tŷ Gwag? Beth yn wir yw hanes yr hen Dŷ Gwag? Beth yw perthynas Tegwen Dafis a'i chymydog? Pam nad yw'r Prif Gwnstabl Clough yn barod i gefnogi ymdrechion Ron Powell yn ei waith? Pam mae'r meddyg lleol mor barod i ddosbarthu ei bresgripsiwn amheus?

DIWEDDGLO
Nifer fawr o ddirgelion - un ynghlwm a'r llall. Nifer fawr o gymeriadau hen ac ifanc, rhai yn gyfarwydd, rhai yn estron. Pob dim yn clymu at ei gilydd yn y diwedd.

Mae CYSGODION HEN GREIGIAU yn nofel i'w mwynhau - mae'n gymysgfa o'r dirgel a'r digri ac yn addas i unrhyw oedran aeddfed.
Ar gael nawr yn eich siop lyfrau Cymraeg neu cysylltwch â ni ar: jig-369@hotmail.com

---

*parhad o dudalen 1*

## Y Gymanfa Ganu

Cynhaliwyd y Gymanfa Ganu ar nos Sul, Mai 18fed ac ni welwyd Capel Blaenffos mor llawn ar gyfer Gymanfa ers amser maith, gyda tua 400 o gantorion wedi dod ynghyd dan law fedrus yr arweinydd Sioned Page Jones a cyfeiliant Wendy Lewis. Cafwyd canu gwefreiddiol a recordiwyd y Gymanfa ar gyfer rhaglen Dechrau Canu Dechrau Canmol, a ddarlledir ym mis Medi. Derbyniwyd £1,000 mewn casgliad i goffrau'r gronfa leol.





RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

# SAN CLER

**Cydymdeimlwn** â Eric Davies, Tynewydd, ar farwolaeth ei chwaer, Lynette James o Hendygwyn.

**Llongyfarchiadau** i Wyn ac Anona James, Elm House ar enedigaeth ŵyr. Ganwyd Cellan Wyn i Catrin a'i gŵr Heulin.

....hefyd, i Geraint a Sioned Davies, Fferm yr Hendre ar enedigaeth ei hŵyr hwythau. Ganwyd Caeo Vivian ar Fai 5ed i Elin a Rhys.

# LLANGYNIN

**Gwellhad buan**

Mae nifer o drigolion Llangynin wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i Gareth a Lynda Thomas, Pantglas, y ddau ohonynt wedi treulio amser yn yr ysbyty. Gobeithio eu bod nawr ar wellhad.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Mary Edwards, Pleasant View, sydd wedi bod yn anhwylus ac wedi treulio amser yn yr ysbyty yn ystod mis Mai, ac i Sian Davies, Llain Deg, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd, wedi iddi gwympo a thorri ei phigwrn.

Cofiwn am Luned Davies, Troed-y-rhiw, sydd yn dal yn yr ysbyty ar hyn o bryd, a dymunwn wellhad llwyr a buan iddi hithau.

**Diolch**

Hoffai Mary Edwards, Pleasant View, ddiolch o galon i'w theulu, ei ffrindiau a'i chymdogion am eu gofal a'u caredigrwydd yn ystod ei salwch. Diolch am bob carden, galwad ffôn ac ymweliad – gwerthfawrogir pob un ohonynt yn fawr iawn.

**Cydymdeimlad**

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mrs Jacky Convery, Pengwern. Cydymdeimlwn gyda'i phriod Robert a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Estynnwn gydymdeimlad hefyd ag Arwel, Llinos a Ffion Haf, Primrose Hill, ar farwolaeth cyfnither Arwel yn ddiweddar, sef Mrs Llinos John o Bwll Trap.

**Apêl Llangynin a'r Cylch at Eisteddfod y Garreg Las 2026**

Diolch o galon i drigolion Llangynin a'r Cylch am ddod i gefnogi'r digwyddiad cyntaf i godi arian tuag at Eisteddfod y Garreg Las 2026. Fe godwyd £1004.50 mewn noson Rasys Ceffylau yn Neuadd Capel y Bryn. Elfed Lewis a Kevin Roberts oedd yng ngofal y Rasys – diolch iddynt am eu gwaith caled ar y noson. Diolch hefyd i'r holl noddwyr ac aelodau'r Pwyllgor. Am ddechreuad gwych i'r Apêl!




Llongyfarchiadau

Braf oedd gweld Hefina Wyn Jones, Ger Y Bryn, ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro 2025, yn arwain y côr buddugol yn y gystadleuaeth ar gyfer Corau S.A.T.B Blwyddyn 13 ac iau i Ddysgwyr. Roedd hon yn un o bedair cystadleuaeth newydd yn Eisteddfod yr Urdd eleni a'r darn gosod oedd 'Y Cwm' gan Huw Chiswell. Llongyfarchiadau i Gôr Hyfryd, Ysgol Dyffryn Taf, a'u harweinydd Hefina, ar eu buddugoliaeth.

# PWLL TRAP

Cydymdeimlwn â Keith John, Lon Las, ar farwolaeth disymwth ei wraig, Llinos.

Roedd Daniel O'Callaghan wedi cyfansoddi a pherfformio cân yng Ngŵyl Cyhoeddi Eisteddfod y Garreg las yn Arberth. Llongyfarchiadau iddo. Bu hefyd yn brysur yn gweithio ym mhabell y canlyniadau yn ystod Eisteddfod Dur a Môr a gyda Aelwyd Hafodwenog.

Cydymdeimlwn â Huw Davies, Glynderi, ar farwolaeth ei ewythr, Eric Jones o Gaerfyrddin (Meidrim gynt).

Llongyfarchiadau i Eleri Evans, Clos Nathaniel ar ddathlu ei phenblwydd yn 60 ar Fehefin 7fed.

BELLISSIMO
Blodau gan
Kathy Bizzotto
(Llandysilio)
ar gyfer pob achlysur.
Defnyddir blodau
tymhorol lleol.
Ffôn: 07944 248973
e-bost:
kathbizzoto@gmail.com

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735

STEVE DANIELL
Monraker
PLYMIWR
Gosod ystafelloedd ymolchi
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

**Bethlehem Newydd**

Cynhaliwyd oedfa ddiddorol dan ofal Mr. Lyndon Lloyd ar Fai 11eg. “Rhwng y Pasg a’r Pentecost” oedd thema’r oedfa ar Fai 25ain pan fu’r aelodau yn cymryd rhan. Cafwyd oedfa hyfryd iawn pan y clywid am yr hanesion ble’r ymddangosodd yr Iesu i wahanol bobl yn dilyn yr Atgyfodiad. Dai Rees oedd yn cyfeilio.

Ar nos Iau, Mai 22ain cynhaliwyd cyngerdd arbennig. Y gantores wadd oedd Sian James gyda Geraint Cynan yn ei chefnogi. Cafwyd noson wefreiddiol yn ei chwmni pan y canodd amrywiaeth o ganeuon gwerin a rhoi’r hanes y tu ôl iddynt. Hefyd fe glywid rhan o’r gerddoriaeth roedd y ddau wedi ei gyfansoddi gogyfer â bale yn Eisteddfod Meifod. Noson wych, diolch i bawb a fu’n trefnu ac a fynychodd y noson.





Ymunodd Eglwysi Peniel a Bwlchycorn â’r oedfa ym Methlehem Newydd ar Fehefin 8fed fel rhan o’i Sul pererindod. Croesawyd pawb gan Rhodri a roddodd amlinelliad o’r addasu a wnaed ar y capel a’r gweithgareddau a gynhelir yno. Roedd yr oedfa dan ofal Catrin Isaac Thomas o Faenclochog a chafwyd oedfa fendithiol a diddorol wrth i ni ddathlu Sul y Pentecost. Gwasanaethodd Dai Rees wrth yr organ. Cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned wedi’r oedfa.



**Tŷ Croeso**

Mae’r dosbarthiadau Yoga Cadair wedi profi’n hynod o boblogaidd ac i fod yn llesol iawn i’r corff. Cynhelir y dosbarthiadau ar fore Gwener, maen nhw’n awr o hyd a’r gost yw £7 y sesiwn. Os oes diddordeb gennych ymuno cysylltwch â Kelly ar info@littlewhitedoveyuj.co.uk



**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
GWASANAETH
CADW CYFRIFON
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
*Yn drwyddedig gan*
*Association of Accounting Technicians*

Delwedd
07814 543634
***Salon Harddwch a Chyflenwol***
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a’i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

# MEIDRIM

**Henoed**

Ar Fehefin 3ydd, croesawodd Glyn James, Elen Bowen o Gapel Iwan a ddaeth i siarad â ni am sut i wneud gemwaith. Roedd yn ddiddorol iawn ac yn sôn am y gwahanol ddarnau mae'n eu cynllunio cyn eu cynhyrchu. Mae hefyd yn cynnal gweithdai gemwaith, lle gallwch greu darn o emwaith i'w drysori, a dysgu sgiliau wrth wneud. Diolchodd Meirion Morris iddi am brynhawn diddorol.

Mis nesaf ar Orfennaf 1af, byddwn yn cynnal ein te mefus yn Neuadd Ieuenctid Meidrim. Gan ein bod yn dathlu hanner can mlynedd ers y cychwyn, byddwn yn dathlu'r garreg filltir yma yn ystod y tê. Yn rhoi raffl - Arwyn Jones, Glyn James, Danny Newton a Noel James.

## Ennill Cap Aur

**Llongyfarchiadau** i Alun Davies, mab Roger a Lynne Davies, Maes yr Hedydd, Meidrim ar ennill Cap Aur am chwarae ei 50fed gêm o rygbi i'r Heddlu Prydeinig. Derbyniodd ei Gap Aur yn ddiweddar allan yn Ne Affrica.



Nick Bracken OBE yn cyflwyno Cap Aur i Alun



Alun gyda Eben Etzebeth, un o chwaraewyr enwog De Affrica

# TRELECH

**Llongyfarchiadau** a phob dymuniad da i Mrs Iris Reynolds, Clungwyn ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed.

....... hefyd i Mr Glyn Davies, Rhydygors gynt, sydd yn dathlu penblwydd arbennig ar ddechrau'r mis.

.......hefyd i Chris Rees Ger y Gawnen (a Beca) sydd hefyd yn dathlu penblwydd arbennig. Ein dymuniadau gorau iddo yntau hefyd.

**Llongyfarchiadau** i blant a phobol ifanc yr ardal, yn enwedig Ysgol Hafodwenog ac Aelwyd Hafodwenog am eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Braf oedd clywed am eu llwyddiant ar y teledu.

**Diolch**

Dymuna Mattie a theulu'r diweddar William James, Cae-llan, Llanwenog, gynt o Glynhir a Fronglyd Cilrhedyn, ddiolch i'r teulu, perthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

Cynhaliwyd yr angladd ar y 6ed o Chwefror yng Nghapel Brynteg, Llanwenog pan ddaeth cynulleidfa fawr ynghyd. Dymuna'r teulu ddiolch yn fawr iawn i'r Parchg Chris Bolton, swyddogion Capel Brynteg ac i'r Hybarch Eileen Davies. Rhoddwyd y deyrnged gan Jean Lewis.

Dymuna'r teulu ddiolch i staff yr ysbytai ac i Feddygfa Bro Pedr, Cerdin Price a'r teulu am drefnu'r angladd mor urddasol ac i Mair Hatcher, Cegin Gwenog. Casglwyd swm o £1,050 i'w rannu rhwng Ward Dewi, Ysbyty Glangwili a Meddygfa Bro Pedr. Diolch o galon.

## Cyflwyno siec i Ambiwlans Awyr



Menna ac Eifion, Brynsiriol yn cyflwyno siec o £1075 i Ambiwlans Awyr Cymru, yn dilyn penblwydd Menna yn 80 oed yn ddiweddar.


the LONDON HOUSE butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN

**01994 240705 / 240055**

*Galwch mewn am y dewis gorau*

Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol

15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
Gerald@GeraldBlainAssociates.co.uk
GeraldBlainAssociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR



Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

**Capel y Graig**

Ar bnawn Sul y 18fed o Fai, cynhaliwyd Cymanfa Bwnc Capel y Graig a Phen-y-bont yng Nghapel Pen-y-bont. Yr holwr gwadd oedd Karen Owen a llywyddwyd yr oedfa gan Elinor Jameson.

Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Catrin Parry Williams a Fiona Phillips, Pen-y-bont. Cafwyd hefyd gyflwyniad graenus a diddorol ganddynt ar `Ffydd, Gobaith a Chariad'. Cawsom gyflwyniad ardderchog gan bobl ifanc a phlant Ysgol Sul Capel y Graig hefyd ar y thema 'Ffrwythau'r Ysbryd', gyda Ffion Harries yn eu holi. Yn dilyn cyfraniad y plant a'r bobl ifanc, bu'r oedolion a'r bobl ifanc yn canu ac yn darllen y bennod Dameg y Talentau o Efengyl Mathew. Fe'u holwyd yn drylwyr ac yn gartrefol iawn gan yr holwraig wadd a diolch yn fawr iawn iddi am ei gwaith. Canwyd ymhellach ddau emyn gan bobl ifanc Pen-y-bont a Chapel y Graig.

Diolch yn fawr iawn i'r plant, pobl ifanc, oedolion a phawb ddaeth ynghyd i gefnogi'r Gymanfa. Diolch yn fawr i Linda Davies ac Elinor Jameson, Eirlys Phillips, Eleri Rees a Jean Lewis am sgriptio, paratoi a chyfeilio. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r Parchg Emyr Williams am holi a mynd drwy'r bennod yn fanwl yn yr Ysgol Ateb.

Yn dilyn yr oedfa, gwerthfawrogwyd yn fawr iawn y lluniaeth a'r danteithion blasus a chyfle i sgwrsio yn y Ganolfan. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu at lwyddiant y Gymanfa Bwnc eleni eto.



Plant ac ieuenctid y Gymanfa Bwnc

Ar Sul y Pentecost, 8fed o Fehefin cafwyd oedfa undebol yng Nghapel Ffynnonbedr gyda Mrs Shan Jones, Pantyglasier yn gwasanaethu. Cafwyd oedfa fendithiol iawn ganddi yn son am y Pentecost a dyfodiad yr Ysbryd Glân. Mrs Rhian Wyn Williams oedd yn cyfeilio. Wedyn aethpwyd i Westy Llwyn Iorwg i fwynhau cinio ac yn hwyrach aeth rhai aelodau ymlaen i Gymanfa `Cofio Gwynfor' yng Nghapel Heol Awst lle'i recordiwyd ar gyfer rhaglen Dechrau Canu Dechrau Canmol.

# ALMA

**Clwb Bowlio**



Tím Bowlio Alma



Y Capten, Ambrose yn cyflwyno tarian i Derrick a Keith enillwyr y dwbwl.



Y Cadeirydd, Keith yn cyflwyno tarian i Elgan, enillydd y Senglau.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL, HEN-DY-GWYN, SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dwr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

# PENYBONT

### CFfI Penybont

Cawsom ddiwrnod da yn rali'r sir. Llongyfarchiadau i'n haelodau ar eu llwyddiant yn y rali.

1af Gwion Jones Howells - Paratoi llo bîff
1af Olwen a Gwion - Barnu Stoc Holstein
1af Celyn a Lili - Tik Tok neu Instagram Reel
2il Siôn a Dafydd - Gwaith Coed
4ydd Mared, Alaw a Mair - Capable Campers
6ed - Mared a Mair - Coginio dan 16



Llongyfarchiadau mawr i un o'n haelodau, Elin Phillips a fydd yn ddirprwy lysgennad CFFI Sir Gâr eleni. Pob hwyl i ti Elin!

# BLAENWAUN

Pob dymuniad da i Barry Davies sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty ar ôl damwain yn y cartref.

### Moriah

Diolch i'r Parchedig Gareth Ioan a Dafydd Evans am eu gwasanaeth.

Estynnir croeso cynnes i oedfa Mehefin 22ain am 2 o'r gloch. Arwel Evans bydd yn gwasanaethu.

Edrychwn ymlaen at ein gwibdaith tair eglwys. Mae swyddogion Blaenycoed yn trefnu ymweliad i Eglwys Treforus ar Sul 6ed Gorffennaf. Bydd oedfa yn cael ei gynnal am 11 o'r gloch. Angen rhoi enwau i'r ysgrifennydd cyn gynted a phosib.

Gorffennaf
13eg: Sul Sbesial y Cyfundeb am 2 o'r gloch yn yr Egin, Caerfyrddin.
27ain: Cymun 1.30 Parchg Gareth Ioan.

# LOGIN

### Calfaria

Oedfaon
Diolch o galon i Miss Natalie Morgan a Mrs Shan Jones am eu gwasanaeth yn ddiweddar, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf :-
Gorffennaf
13eg: Tudur Dylan Jones - Cymun 10.30
27ain: Hefin Wyn - Cwrdd 2.00

### Penblwydd hapus

Dymunwn benblwydd hapus iawn a phob dymuniad da i Margaret Williams, Cilowen fydd yn 90 oed ar Gorffennaf 14eg.

### Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Nigel Vaughan, Glenig sydd wedi derbyn llawdriniaeth ar ei lygad a'i gefn yn ddiweddar.

### Y Fynwent

Mae'r fynwent yn edrych yn daclus ac yn gymen unwaith eto, diolch o galon i Dan Phillips am ei waith.

### Cydymdeimlad

Meddyliwn am Eurfyl Lewis, Ysgrifennydd Capel Calfaria Login, yn ei brofedigaeth. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag ef, ynghyd â'i blant a'u partneriaid, Ifan a Sioned, Elen a Dafydd a Tomos ac Elen, a'i ŵyr bach, Twm, ar golli gwraig, mam a mamgu annwyl, sef Jill Lewis o Llanglydwen. Boed yr holl atgofion hapus sydd gennych fel teulu fod o gysur a nerth i chi yn eich galar a'ch hiraeth. (C J)

Cofiwn hefyd am Mefin Lewis a'r teulu estynedig ar golli merch yng nghyfraith a chwaer yng nghyfraith.

**Penblwydd hapus yn 90 oed**

Dymuna Beti, Sian, Dion a'u teuluoedd benblwydd hapus Iawn i Margaret Williams, Cilowen, ar ei phen blwydd yn 90 oed ar y 14eg o Orffennaf.

# CWM MILES

Diolch i Donna George am ei gwasanaeth ym mis Mehefin.
Disgwylir Shân Jones i gymun mis Gorffennaf. Bydd yr oedfa am 2 o'r gloch.

Crymych Arms
Croeso i'r Crymych Arms
Bwyd rhagorol a chroeso cynnes
01239 831 435
crymych.arms@gmail.com

ORW LTD
TRADING AS
DORIAN PHILLIPS
Owain: 07879 495653
Owain @dorianphillipsbuilders.co.uk

ARWAIN
CYNLLUNIO A THREFNU ACHLYSURON ARBENNIG
Penwythnos Stag / Parti plu
Teithiau Clwb Chwaraeon / Ysgol
Penwythnos llawn gweithgareddau
Nosweithiau codi arian....a mwy
07891 922210
rhodri@eicharwain.co.uk
www.eicharwain.co.uk

## Canolfan Ffynnonwen

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol ar nos Fawrth, 20fed Mai. Daeth cyfnod Roy Llewellyn fel cadeirydd i ben. Soniodd bod ei gysylltiadau â'r adeilad yn mynd yn ôl i'w ddyddiau ysgol. Brasluniodd ei gyfraniad dros y blynyddoedd. Yn wir mae wedi rhoi gwasanaeth oes. Ef oedd y cadeirydd cyntaf pan brynwyd yr ysgol nôl yn 1972 felly yn aelod o bwyllgor gwreiddiol y ganolfan. Dros y blynyddoedd mae wedi dal nifer o swyddi. Diolchwyd yn ddiffuant iddo am ei holl gyfraniad, gan y cadeirydd newydd Sarah Robinson.

Wedi trefnu materion oedd yn codi aethpwyd ymlaen a trefnu rhaglen.

**Dyddiadau i'w cofio**

Nos Wener, 6ed Gorffennaf am 6 o'r gloch-" Noson Rhannu Swper"

Bydd cyfarfod byr ar y dechrau i drefnu'r Ffair Hâf

Ffair Hâf dydd Sadwrn 19eg Gorffennaf am 1 o'r gloch. (manylion ar y poster)

Nos Sadwrn, 9fed Awst Noson Cwis dan ofal Ray a Lynn Burnell.




## Dydd Agored Amgueddfa Rheilffordd Y Cardi Bach

Cynhelir dyddiau agored yn Amgueddfa Rheilffordd Login, ar ddydd Sadwrn a Sul 12fed a 13eg Gorffennaf. Bydd yn ddathliad cant a hanner o flynyddoedd ers agor yr orsaf yn Login. Maent ar agor o 12 tan 4 y prynhawn. Dewch i ddathlu, bydd yna arddangosfeydd o hen geir a thractorau; band 'ukelelee' a llawer o atyniadau eraill. Bydd digon o ddanteithion ar werth hefyd. Achlysur pwysig, siawns i weld yr amgueddfa a chymdeithasu, ac edmygu ymdrechion bobl y rheilffordd. Cofiwch gefnogi. Mynediad drwy rhodd.


**Gorsaf Login**

Canolfan Treftadaeth Cardi Bach

**Dathlu'r Cardi Bach**

**150**



**Penwythnos Agored**

**Gorffennaf 12fed a 13eg**

**12.00yp - 4.00yp**

Ffilmiau o'r archif

Stondinau amrywiol

Grŵp Iwcalili

Arddangosfa Tractorau a Cheir

Te a chacennau

**AWEN TEIFI**

Dewis da o lyfrau Cymraeg
i blant ac oedolion,
hefyd cardiau a theganau

Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn

Ffôn: 01239 621370

23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

**CENNYDD JAMES**

- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

*Gwasanaeth yn y Gymraeg!*

Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559

CANOLFAN REHAB CENTRE

therapi chwaraeon
clinigol

ar gyfer poenau ac anafiadau
cyffredinol sy'n gysylltiedig â
chwaraeon a gwaith

## RHYDWILYM



Dymuna Beryl John ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 80 oed. Diolch yn fawr.

**Llongyfarchiadau** mawr i Magi Elan John, Fferm Blaenpant, ar ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025. Enillodd Magi gyfanswm o 6 medal am ei gwaith Celf a Chrefft ac wrth gystadlu yn yr 'Eisteddfod T'. Cynrychiolodd Magi ei hysgol, Ysgol Brynconin, ac fe enillwyd Tlws Rhanbarth Arbennig yr Eisteddfod eleni gan Urdd Sir Benfro.



## RHYDYCEISIAID

Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, 1af o Fehefin. Hyfryd oedd cael cwmni Mrs Eifiona Lewis yn yr oedfa.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Marlene Lewis, Hafan Glyd sydd wedi bod yn yr ysbyty am ychydig amser ond adref nawr. Bydd Marlene yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Orffennaf 11eg.

Dymuniadau gorau i'r Parch Guto a Mrs Llywelyn a'r teulu yn yr ofalaeth newydd a diolch iddo am ei wasanaeth a'i garedigrwydd i ni.

## CWMFELIN MYNACH

Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Mehefin 1af dan ofal Y Parch. Eirian Wyn Lewis ac oedfa ar yr 8fed dan ofal y Parch. Huw George. Diolch iddynt am eu gwasanaeth.

**Trefn oedfaon mis Gorffennaf**

6ed: Oedfa gymun dan ofal Mrs Shan Jones - 10.30
13eg: Oedfa dan ofal y Parch. Huw George - 10.30

Bydd yr oedfa hon yn seiliedig ar gerddi ac emynau o waith Mrs Nansi Evans. Bydd paned ar y festri i ddilyn. Mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaeth arbennig yma.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Brian John, Rose Cottage ar farwolaeth ei frawd Leslie o Gefneithin, hefyd gyda'r cysylltiadau teuluol eraill.

## LLANGLYDWEN

**Diolch**

Dymuna Eurfyl a'r teulu ddiolch o waelod calon ac yn ddiffuant iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswydd iddynt yn eu profedigaeth. Maent fel teulu wedi eu syfrdanu gan y cannoedd a'r gannoedd o negeseuon o gydymdeimlad dderbyniwyd ganddynt drwy gyfrwng cardiau, negeseuon tecst, whats app, facebook, galwadau ffon ac ymweliade i'w cartref yn Lluest - heb anghofio'r holl flodau, cacennau a phrydiau bwyd.
Rydym yn teimlo'n freintiedig iawn ein bod yn byw mewn cymuned mor gefnogol a charedig.

Derbyniodd Jill ofal arbennig yn Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd yn ystod y misoedd diwethaf - yn unede SDEC, A&E, ACDU a Ward 10.

Gwnaeth hi hefyd dderbyn trinieth a gofal arbennig yn uned chemotherapi'r Ysbyty dros y bedair mlynedd diwethaf a diolch i Dr Kihara, yr oncolegydd, ac holl nyrsys a staff yn yr uned chemotherapi am hynny.

Mae'r gwasanaeth Iechyd dan bwysau eithriadol ac yn cael ei feirniadu'n amal, ond dim ond parch, edmygedd a'r diolchgarwch pennaf sydd gennym fel teulu tuag ato.

Diolch i Dr Fleming a Dr Lewis, Meddygfa Arberth, tim nyrsio cymunedol Arberth a Crymych, Edward John a'i staff, Fferyllfa Clunderwen am wasaneth arbennig hefyd.

LLAWN CARIAD

**Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon**

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk




Bwyd Byd Byd

- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus

- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

Diolch i Dennis a Jean Jones, y trefnwyr angladdau am gyflawni eu dyletswydde gyda pharch a'u urddas arferol ac i bawb fu'n cymryd rhan yn y gwasanaethau angladdol yng Nghapel Bethel, Mynachlogddu ac Amlosga Parc Gwyn, Arberth. Diolch o galon i bawb, gwerthfawrogir y cyfan yn fawr gennym.

Derbynnir rhoddion, os dymunir, tuag at "Withybush Hospital Cancer Day Unit Appeal" drwy law Mr Dennis Jones, y Trefnwr Angladdau, neu drwy gyfrannu arlein www.crowdfunder.co.uk/p/cyfraniadau-er-cof-am-jill-lewis http://www.crowdfunder.co.uk/p/cyfraniadau-er-cof-am-jill-lewis>;

# BANCYFELIN

**Capel Bancyfelin**



Hyfryd oedd gweld llawr Capel Bancyfelin yn gyfforddus lawn ar gyfer ein Cymanfa Bwnc eleni. Cymerwyd rhan gan Ysgolion Sul Bancyfelin, Cana, Ffynnonbedr a Gibeon. Thema'r oedfa oedd 'Chwi yw halen y ddaear' a chafwyd hwyl ar ymatebion y plant i anerchiad y Parchg Beti Wyn. Diolch i bawb a ddaeth ac i'r athrawon Ysgol Sul am eu gwaith.

**Gibeon**

Cynhaliwyd Oedfa Undebol (Gymanfa Bwnc) yng Nghapel Bancyfelin ar brynhawn Sul, Mai 11eg. Cafwyd oedfa hyfryd a drefnwyd gan y Parch. Beti-Wyn James gyda'r pedair Ysgol Sul, Bancyfelin, Cana, Gibeon a Ffynnonbedr yn cymryd rhan. Halen oedd testun yr oedfa, gwyliwyd ffilm fer a chafwyd anerchiad diddorol gan y Parch. Beti-Wyn. Diolch i Elan, Holly, Llion, Fern, Daisy a Gwennan am gymryd rhan dros Ysgol Sul Gibeon.

Ar fore Sul, Mai 18fed cafwyd oedfa yng ngofal yr Ysgol Sul yng Ngibeon. Bu'r plant a'r ieuenctid yn gyfrifol am y darlleniadau a gweddiau a chafwyd cân ganddynt. Cafwyd anerchiad gan Beti-Wyn a bu'n cyfeirio at y son am halen yn y Beibl gan rhoi hanes Thomas Charles a Geiriadur Charles fel cyfeirlyfr gwerthfawr sydd yn cynnwys gwybodaeth ddifyr am halen. Gweinyddwyd y Cymun gan Annalyn. Ann oedd yn cyfeilio. Diolch i bawb fu'n cymryd rhan. Mwynhawyd paned i ddilyn yr oedfa.




Mae Emrys Morgan, Sarnbwla wedi treulio cyfnod yn yr Ysbyty. Da yw deall ei fod adre ac ar wellhad.


## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Andrew Edwards ac Angharad Thomas ar eu priodas ar ynys Rhode yng ngwlad Groeg ar Fai 21ain. Mae Angharad yn ferch i Roy a Jane Thomas, Talacharn ac Andrew yn fab i Wyn ac Angela, Heol Bronwydd, Caerfyrddin ac yn ŵyr i'r diweddar Dewi ac Irene Edwards, Pwll Trap.







# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**



Gwilym Davies, Apostol Heddwch Cymru yr ugeinfed ganrif oedd testun oedfa aelodau a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cafodd ei eni yn Bedlinog yn Sir Forgannwg ond symudodd y teulu yn fuan iawn wedyn i Manordeilo. Fe wnaeth dderbyn galwad fel dyn ifanc i fod yn weinidog yn Broad Haven yn Sir Benfro. Ar ôl nifer o flynyddoedd fel gweinidog fe wnaeth adael y weinidogaeth er mwyn gallu canolbwyntio yn llawn ar weithio dros heddwch byd.

Bu yn gweithio llawer yn Geneva ac fe wnaeth helpu i sefydlu UNESCO. Mae'n siwr fod llawer ohonoch wedi clywed am Neges Heddwch Ewyllus Da yr Urdd sydd yn cael ei anfon dros y byd bob blwyddyn. Gwilym Davies sefydlodd hwn ac ef hefyd oedd trefnydd Deiseb Heddwch Merched Cymru yn 1922.

Gellir darllen mwy amdano ar y we a hefyd mewn nifer o lyfrau amdano.

Mae Clwb Hwyl y plant yn parhau i gwrdd yn y Tabernacl bob prynhawn Gwener a nifer o blant yn bresennôl bob wythnos.



Braf oedd derbyn aelod newydd i'r capel yn ddiweddar sef Marion Stephens. Hefyd yn y llun mae Guto Llywelyn a Meryl James.

Ar nodyn personol dyma fydd fy nghyfraniad olaf i'r 'Cardi Bach' a hynny ar ôl derbyn galwad i fod yn weinidog yng Nghwm Gwendraeth. Diolch i bawb yn yr ofalaeth ac yn yr ardal am y croeso bendigedig yr wyf wedi cael wrth bawb dros y deuddeg mlynedd diwethaf yma. Pob dymuniad da i chi gyd ar gyfer y dyfodol.
*Guto Llywelyn*

*Ar ran pwyllgor a darllenwyr Y Cardi Bach dymunwn yn dda i Guto yn yr ofalaeth newydd gan ddiolch o galon iddo am ei gyfraniadau misol ar ran y capeli oedd dan ei ofal. Bydd yr ardal gyfan yn gweld ei eisiau yn fawr. (Gol.)*

**Diolch**
Dymuna Elizabeth White ddiolch yn fawr am y cardiau, anrhegion, blodau ac am y cyfraniadau ariannol o £250 tuag at elusen Ymchwil Leukaemia Cymru a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar.

## Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026

Pwyllgor Apêl Hendygwyn ar Daf

Cynhaliwyd Pwyllgor Apêl Hendygwyn yn ddiweddar yn festri Capel y Tabernacl ac fe sefydlwyd y canlynol fel swyddogion:

Cadeiryddion – Awena Owen ac Eleri Morgans
Ysgrifenyddion: Elonwy Phillips a Heather Jenkins
Trysorydd – Huw Jones



Mae gan Hendygwyn darged o £8500 i'w godi ar gyfer yr Eisteddfod, a mawr hyderwn y bydd busnesau, sefydliadau, mudiadau a thrigolion y dref yn dangos eu cefnogaeth i'r her.

Trafodwyd nifer o syniadau a digwyddiadau yn y cyfarfod, felly cadwch lygad ar y cyfrygnau cymdeithasol, posteri a'r Cardi Bach am wybodaeth.

Mae Heather Jenkins eisoes yn gwerthu "raffl dyddiadau calendr" ar gyfer ennill gwobr o £50! Pris dyddiad yw £1.

Hefyd, gweler y poster ar gyfer y Clwb Pêl Fonws. Cyfle i rywun lwcus ennill £10 bob nos Sadwrn!


THE FLORAL GOAT
blodau naturiol tymhorol hardd
Karen MacKechnie
Crug y Deri
Llandysilio
SA66 7JJ
07774 715059
karen@floralgoat.co.uk



*Yn tyfu wrth ochr yr Afon Conin*
*Ewyn rhydd flodeugerdd ffarwel*

dp MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

**H THOMAS a'i FAB**
**Peiriannydd Amaethyddol**



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

Bydd cyfarfod nesa Pwyllgor Apêl Hendygwyn ar nos Fercher, Gorffennaf yr 2ail yn festri'r Tabernacl am 7.00. Croeso cynnes i bawb.




## Cymdeithas Genedlaethol Hywel Dda

Enillwyr Clwb 100

| Mis Mai | Mis Mehefn |
|---|---|
| Christine Randall - £60 | Red Kite - £60 |
| Jeff Court - £50 | Anona Defis - £50 |
| Wynne Phillips - £40 | Emma Smith - £40 |
| Dafydd Ebsworth - £30 | Whitland Engineering - £30 |

Gwobr Arbennig
Twm Rogowski - £50
Trefor Evans - £50

**Diolch**

Dymuna Gwenda Mathias, Hyfrydle, Hermon ddiolch o galon am yr holl ddymuniadau da, cardiau, blodau, ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad o Meddygfa Tâf, Hendygwyn ar ôl 30 mlynedd o wasanaeth. Diolch yn fawr.

## Llwyddiant ysgubol Gŵyl Fwyd Stryd Hendy Gwyn

Roedd Gŵyl Fwyd Stryd Hendy Gwyn 2025 yn lwyddiant ysgubol, gan ddenu dros 5,000 o bobl trwy gydol y dydd. Dyma'r ail waith i'r Wyl cael ei chynnal a cafodd yr ymwelwyr ddigon o ddewis, gydag mwy na 100 o stondinau, dros 30 ohonynt yn ymroddedig i fwyd a diod - yn cynnig popeth o fwyd stryd sbeislyd i ddiodydd lleol adfywiol. Roedd y tywydd yn hyfryd eleni ac yn sicr, gwnaeth hyn ddenu fwy o ymwelwyr i'r Wyl Fwyd. Chwaraeodd busnesau lleol rôl fawr yn llwyddiant yr ŵyl, gyda mwy na 100 o noddwyr yn cefnogi'r digwyddiad. Diolch yn arbennig i'n prif noddwyr sef Bwydydd Castell Howell, A&C Aggregates, a 3 A's Leisure, a helpodd eu cefnogaeth werthfawr i wneud y ŵyl yn un i'w chofio.

Cafwyd adborth gwych gan yr ymwelwyr a'r stondinwyr, llawer ohonynt wedi gwerthu eu cynnyrch i gyd ac yn canmol yr holl drefniadau.

Bydd elw o'r Ŵyl eleni yn mynd tuag at greu trac beicio ym Mharc Dr Owen, yn debyg i'r un sydd yng Nghlunderwen. Mae'n bennod ac yn gyfnod cyffrous i'r gymuned leol a bydd y trac beicio yn adnodd gwych i bawb ei fwynhau.

*Llongyfarchiadau mawr i Joseff Edwards a'i dim diwyd o wirfoddolwyr am drefnu gweithgaredd arbennig yn nhref Hendy Gwyn, dyma engraifft wych o gydweithio cymunedol ar ei orau, sy'n dangos beth gellir ei gyflawni o ganlyniad i hynny. Da iawn Joseff! ( Gol )*



**D. E. PHILLIPS**
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

arwyddion
**EagleSigns**
Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
Uned 3/4, Parc Tir Owen, San Cler. SA33 4BY

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
*Cartref Oddi Cartref*

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855





Lluniau o'r Ŵyl Fwyd

## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Daniel Blain a Beth Howes ar eu priodas ar Fai 31ain

# LLANDDEWI

**Bethel**



Fe wnaeth capel Bethel, Llanddewi ddewis dau o ddiaconiaid newydd yn ddiweddar sef Janet Phillips a Ruth Jones. Llongyfarchiadau mawr iddynt a phob dymuniad da wrth bawb yn y capel.

# LLANWINIO

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL Y GARREG LAS 2026**

Pwyllgor Apêl Llanwinio, Cwmbach, Blaenwaun a Cwmfelin Mynach

Cynhaliwyd 3ydd cyfarfod y pwyllgor nos Fawrth, 3ydd Mehefin 2025 yn Neuadd Llanwinio.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Mai 6ed.

Cafwyd diweddariad gyda'r trysorydd ar sefyllfa ariannol yr apêl gyda £1300 wedi dod i law yn barod.

Cafwyd adroddiad gan Jiwli ynglyn â gwahodd rhai o Ddawnswyr Talog i noson Gŵyl Ddewi ar Chwefror 28ain 2026. Erbyn hyn, maent wedi derbyn y gwahoddiad.
Ynglyn â Debbie Jackson – dim dyddiad cyfleus i gynnal gweithgaredd i blant.
Mae Phillip Higginson yn awyddus i gynnal noson Plygain yn yr eglwys yn ystod dechrau Ionawr 2026, gyda unrhyw elw yn mynd i'r apêl.

Trafodwyd cynnal Rasus Ceffylau yn y neuadd. Roedd Wyn wedi cysylltu ymlaen llaw ag Elfed Lewis, Llangynin a oedd yn barod i redeg y noson gyda help un neu ddau o'r pwyllgor. Penderfynwyd mae yn ystod mis Medi fyddai'r amser gorau - dyddiad i'w gadarnhau.

**HUW JONES**
ADEILADWR



Dorset House
Heol y Gogledd
Hen Dy Gwyn ar Daf

Ffôn: 01994 240811
Symudol: 07817 633329

**DERI PAGE**
**CIGYDD**



Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

**GT TYRES**



Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
**Brooklyn Garage**
**Heol y Castell**
**Aberteifi. SA43 3AE**
☎: 01239 612814 / 07765 034705

Cytunwyd i gynnal Raffl Calendr lle mae pobl yn rhoi enw ar ddyddiad mewn unrhyw fis o'r flwyddyn, gyda'r dyddiad/enw a ddewisir yn ennill £50.

Penderfynwyd cynnal noson Gemau a Gwin ar nos Wener, Gorffennaf 11eg. Bydd hon yn noson i'r teulu gyda aelodau'r pwyllgor i ddod a gemau bwrdd ad-das. Bydd raffl ar y noson hefyd. Pris mynediad fydd: oedolion £5 (yn cynnwys gwydraid o win); disgyblion ysgol uwchradd £2; disgyblion cynradd am ddim. Gwirfoddolodd Danni i fod yn gyfrifol am wneud posteri dwyieithog i hysbysebu'r weithgaredd.

Cafwyd diweddariad gan Wyn ynglyn â chynnal noson yng nghwmni Jac Morgan, capten tîm rygbi Cymru.


Dyddiad y cyfarfod nesaf yw Gorffennaf 1af .

Neuadd Llanwinio

**Noson deuluol**

**Nos Wener, Gorffennaf 11eg am 7.30**

Noson Gemau a Gwin



**Gemau Bwrdd**

**Raffl**

Mynediad: Oedolion - £5 yn cynnwys gwy-draid o win disgyblion uwchradd £2 / disgyblion cynradd am ddim

Elw tug at :

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL Y GARREG LAS 2026

Pwyllgor Apêl Llanwinio, Cwmbach, Blaenwaun a Cwmfelin Mynach

Pwyllgor Adloniant Llanwinio

Neuadd Llanwinio

Raffl

**BINGO**

**Nos Wener,**

**Mehefin 27ain**

**am 7.30**

**Croeso cynnes i bawb**

# LLANDYSILIO

## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau mawr i Daniel ac Alice Roblin ar eu priodas ddydd Sadwrn, 7fed o Fehefin. Priodwyd y ddau yng Nghapel Llandeilo, Maenclochog ac yna ymlaen i Woodfield Barn, Rosemarket. Mae Daniel yn fab i Michael a Delyth Roblin, Llandysilio, ac mae Alice yn ferch i Michelle Pugh a llys-ferch i Hayden Pugh. Dymunwn pob hapusrwydd i'r dyfodol.

**Penblwydd**

Penblwydd Hapus iawn i Geraint Owens yn 50 oed.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn cydymdeimlad â Denise Davies, ei brawd Mi-chael a'u teuluodd ar golli ei mam, sef Eira Mary Parry. Hunodd yn dawel ar nos Sadwrn, 7fed o Fehefin yng Nghartref Waungron, Hendygwyn, yn 93 oed. Meddwl amdanoch.

Neuadd a Maes Chwarae Llandysilio

**CYNGERDD**

Capel Pisgah Llandysilio

Nos Wener, Mehefin 27ain 2025

am 7.30yh

**Côr Meibion Hendygwyn a'r Cylch**

**Jencyn a Lefi**

**Peggy Ann a Poppy Hammersley**

Tocynnau £12.50

Plant Ysgol Gynradd am ddim

Cysylltwch ag Anna Williams ar 077888 16980

MASON BROS

GWASANAETH LLOGI PEIRIANNAU

CONTRACTWYR a MASNACHWYR

THE NORTON YARD, LAMPETER VELFREY, NARBERTH

Ffôn: 01834 831653

Bwyty'r Roadhouse Restaurant

Cylchfan Heol Llanboidy, Hendygwyn

Agor bob dydd o 8y.b. - 10y.h.

*Brecwast, cinio a bwyd gyda'r nos*

*Arlwyo ar gyfer unrhyw achlysur arbennig*

Ffôn: 01994 241193

CJ Waste cyf.

Carl Britton

01994 238367

07506 482007

cjwasteltd@yahoo.com

Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin, Sanclêr, SA33 4JZ

Parc Gwyliau Llandysilio

**Codi Arian**

Gorffennaf 19eg, 2025

*Diwrnod i gofio'r annwyl Christine Bowen*



Hwyl teuluol
Amryw o stondinau
Bwyd a Hufen Ia
Raffl
Paentio wyneb

Codi arian ar gyfer yr elusenau canlynol:
Ambiwlans Awyr Cymru
Adran Gofal Dwys Ysbyty Glangwili
Gorsaf Dân Crymych

Am fwy o wybodaeth: 01437 563408


## CLUNDERWEN




Menna a Morgan wedi gorffen y daith

Ar ddydd Sadwrn, Mai 10fed cymerodd Menna Davies a'i brawd Morgan ran yn CARTEN100 (taith feicio o Gaerdydd i Ddinbych y Pysgod) i godi arian i Isaac Davies, sydd yn ffrind ac aelod ffyddlon o Glwb Ffermwyr Ifanc, Clunderwen.

Ar ddydd Gwener, 1af o Dachwedd 2024, cafodd Isaac ddeiagnosis o diwmor ar yr ymennydd. Fel capten ar dîm Ieuenctid Clwb Rygbi Crymych ac yn ffermwr ifanc brwd, roedd yn fachgen heini, actif ac yn iach ar y cyfan. Roedd ei ddeiagnosis felly yn sioc ofnadwy iddo ef, ei deulu a'i ffrindiau ynghyd â'r gymuned gyfan. Mae Isaac wedi derbyn gofal anhygoel yn Ysbyty Glangwili, Ysbyty'r Waun, Caerdydd ac Ysbyty Coleg y Brifysgol. Llundain, ynghyd â sefydliadau ac elusennau amrywiol. Mae "In it with Isaac" yn ffordd o godi arian ar gyfer y sefydliadau sy'n helpu Isaac ar ei daith i wella, ac i sicrhau bod y sefydliadau yma yn gallu cefnogi eraill yn y dyfodol.




## LLANBOIDY

Croeso adref i Angela Murray ar ôl iddi dreulio misoedd yn yr ysbyty. Da clywed ei bod yn gwella.

Ar Sul, Mehefin 8fed bu'r aelodau yn cymryd rhan yn y gwasanaeth o dan arweiniad y gweinidog, Guto Llywelyn. Cafwyd hanes yr Apostol Heddwch, y Parch Gwilym Davies yn yr 20fed ganrif. Diolch i'r gweinidog am gasglu'r holl wybodaeth ar gyfer oedfa adeiladol.

**Sefydliad y Merched.**

Llongyfarchiadau i Sefydliad y Merched Llanboidy ar ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth y 'Rose Bowl' yn Sir Gaerfyrddin, ac mae nhw nawr yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd.

**Priodas Ddiemwnt**





Bu Len a Sheila Jones o Ddôl yr Onnen Caerfyrddin, gynt o Ffynnonwen, Blaenwaun a Fronhaul, L lanboidy yn dathlu eu Priodas Ddiemwnt yn ddiweddar. Priodwyd y ddau ar y 7fed o Ebrill 1965 yn Eglwys St Aelhaiarn's, Guilsfiels, Welshpool. Dathlwyd yr achlysur gyda pharti teuluol yn eu cartref. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

**BAR BECA**

Rhosfach, Efailwen
**Guto Jenkins**
Oriau agor Gaeaf: Hydref 1af-31 Mawrth
(Ar gau Llun, Mawrth a Mercher)
Agor Iau a Gwener: 4.30yp - 11yh
Sadwrn a Sul 3yp - 11yh

Oriau Haf: Ebrill 1af - 30ain Medi
(Ar gau nos Lun)
Agor Mawrth, Mercher, Iau 5.30yh - 11yh
Gwener, Sadwrn, Sul 3yp - 11yh

Ffôn: 07554 664316




**Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar**



Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
**GWION JENKINS**
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

# HENLLANFALLTEG

Danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Eurfyl a'r teulu i gyd ar farwolaeth Jill yn ddiweddar.

# EFAILWEN

Llongyfarchiadau i gyn ddisgyblion Ysgol Beca oedd yn cynrychioli Ysgol Bro Preseli, ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yn Margam eleni, hefyd i ddisgyblion Ysgol Beca am gynrychioli'r sir yn yr Eisteddfod.



Llongyfarchiadau i Mabli John am gael ei dewis i gyflwyno'r flodeugerdd i'r Archdderwydd yn ystod cyhoeddi Eisteddfod Y Garreg Las yn Arberth yn ddiweddar.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Tudur, Ceirios ac Anthony a'u teuluoedd ar golli chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl, sef Jill Lewis.

Dymunwn pob llwyddiant i Robert a Delyth James yn y Caffi Beca newydd. Edrychwn ymlaen i gael mynychu'r adeilad newydd.

### Pwyllgor Apêl Efailwen, Llanglydwen, Login, Hebron a Cwm Meils.

Cafwyd noson lwyddiannus a hwylus o Bingo yng Nghaffi Beca yn ddiweddar gyda nifer o drigolion yr ardal yn dangos eu cefnogaeth at yr achos. Hoffwn ddiolch o galon i Robert a Delyth am eu haelioni wrth ganiatau i ni gynnal y noson yng Nghaffi Beca, ac am ddarparu lluniaeth ysgafn i'r holl chwaraewyr. Diolch hefyd i Edryd Eynon, Cadeirydd y Pwyllgor a wnaeth droi ei law at y "galw" ar y noson. Fe wnaeth jobyn ardderchog!

Codwyd swm gwych oddeutu £750 tuag at ein apêl.

Gobeithiwn weld cymaint yn cefnogi ein digwyddiad nesaf sef Helfa Drysor Ceir o amgylch ardal y pwyllgor ar Orffennaf 15fed. Mi fyddwn yn dechrau a gorffen yn Bar Beca, Efailwen gyda'r car cyntaf i adael am 5.30yh a'r car olaf erbyn 7.00yh - £10 y car. Mi fydd gwobr ariannol i'r car buddugol a rhywbeth bach i'r tîm olaf hefyd! Edrychwn ymlaen at eich gweld!




**CYMORTH CRISTNOGOL - CASGLIAD BECA A'R CYLCH**

Isod gweler rhestr cyfraniadau sydd wedi'u derbyn oddi wrth gapeli ac unigolion yn yr ardal uchod ar gyfer casgliad blynyddol Cymorth Cristnogol.

| Enw | Derbyniadau |
|---|---|
| Bethesda, Llawhaden | £25.00 |
| Blaenconin Llandysilio | £100.00 |
| Calfaria Login | £150.00 |
| Cefn y pant | £50.00 |
| Eglwys Clunderwen | £40.00 |
| Eglwys Santes Fair Maenclochog | £50.00 |
| Glandwr | £75.00 |
| Horeb Maenclochog | £30.00 |
| Nebo Efailwen | £74.00 |
| Pisga Llandysilio | £150.00 |
| Rhydwilym | £150.00 |
| Seilo Tufton | £50.00 |
| Cymdeithas Bro Cerwyn – Capeli Brynberian, Llandilo a Tabernacl Maenclochog. | £500.00 |
| Y Parchedig a Mrs Ken Thomas | £50.00 |
| **Cyfanswm** | **1494.00** |

PEIRIANNEG MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwynycelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

SPAR
Llanboidy
Swyddfa Bost
Nwyddau o bob math
Diodydd
Loteri
SWYDDFA POST
Ffôn: 01994 448221

Jones Login
Teithiau o Safon
Gwasanaeth o'r safon uchaf
Login, Hendy-gwyn ar Daf
Sir Gaerfyrddin. SA34 0UX
Ffôn: 1437 563277
info@joneslogin.co.uk
www.joneslogin.co.uk

# CLEDDYF EFAILWEN YN DOD ADRE

Gellir disgrifio ceidwad gofalus cleddyf Efailwen fel un o wir feibion y preselau. ganwyd Llewelyn Lloyd Jones yn 1947 ar fferm ei weddw famgu, Tycanol, wrth odre gogleddol y preselau tra roedd ei dad a'i dadcu, seiri o Login, yn codi cartref newydd i'r teulu ar ochr arall y mynydd ym mhentref hanesyddol Efailwen. o Bethabara i Nebo.

Cyfaredd gwyliau bore oes ar fferm ei famgu — cyd-dynnu cymdogol y ffermwyr, y basgedi gwiail o fwydydd bras a miri whê y cywain, y bachau metel pigfain yn codi'r gwair yn yr ydlan, hwyl y dipo defed, y merlod cyfeillgar ar y closydd, purdeb tryloyw y nentydd — Carn Alw ei blentyndod yn dal i'w swyno.

Ymfalchiodd yn hanes dewrion y beca yn gynnar iawn yn ysgol gynradd Pantycaws, Efailwen, a braf oedd dirnad hefyd bod dau o gyd-ddisgyblian annwyl y fro, Glenys a Teifryn Williams, yn nith a nai i fardd lleol pwysig iawn o'r enw Waldo.

Un sadwrn tesog ar ddechrau tymor ysgol yr haf yn 1960, ac yntau erbyn hynny ar ei flynyddoedd cynnar fel disgybl yn Ysgol Ramadeg yr Hendy Gwyn ar Daf, pendroni uwch ychydig o waith cartref roedd Lloyd pan sylwodd ar rywbeth trawiadol drwy'r ffenest — allan ar y lawnt ffrynt gwelai ei frawd bach Huw yn ystumio gornest gleddyfa ofalus gyda'i ffrind agos o'r pentref, Brian. Pastwn byr oedd arf ei frawd ond synnodd Lloyd o weld yr hyn a ymdebygai i gleddyf go iawn yn llaw Brian.

Teimlodd Lloyd dipyn o ias pan soniodd Brian bod ei dad Dilwyn (bellach y diweddar annwyl Dilwyn Edwards) wedi darganfod y cleddyf wrth balu gardd eu cartref. Gwyddai Lloyd mai gardd y tu ôl i'r hen Efail enwog ar sgwâr Efailwen oedd hon. Safai rhan o'r hen Efail gerrig ar y pryd ac fe'i defnyddiwyd fel garej gan y teulu.

Cynigiodd Lloyd ei holl gynilion arian poced ar y pryd o chweugain i Brian ar yr amod ei fod yn cael caniatâd ei rieni i werthu'r cleddyf. Yn fuan wedi hyn daeth Lloyd yn geidwad Ceddyf Efailwen.

Erydwyd llawer o lafn y cleddyf 24 modfedd ar ôl amser maith yn ôl pob tebyg yn guddiedig yn y pridd, ond roedd y carn efydd yn solet. Glanhawyd tipyn o'r efydd gan ddatgelu y rhif 240 ar ddwrn y carn.

Dirgelwch pur i Lloyd oedd y rhigol pwrpasol yng ngharn y cledd. Llwyddodd i gael gafael ar gyfeiriad yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain yng ngwyddoniadur ei rieni ac anfonodd fanylion llwyr a darlun pensil o'r cledd atynt gan erfyn eu cymorth. Whare teg iddyn nhw — derbyniodd ateb ar fyrder yn diolch am y llythyr a'r llun ac yn canmol ei ddiddordeb. Teimlodd ias pellach pan y'i hysbyswyd bod "ganddo yn ei feddiant fidog gleddyf o tua 1832", y math o gleddyf ellid ei gosod hefyd ar flaen gwn milwr. Arswyd y byd!

Bu Lloyd yn byw bellach ers 55 mlynedd ym mhentref Tre Ioan, Caerfyrddin, lle mae'r tollty hynafol wyth ochr yn dal i sefyll ar sgwâr y pentref, a holl gerbydau'r byd yn gorfod aros yno o hyd wrth y goleuadau trafnidiaeth! Bu'n brifathro yn y cylch, yn gynghorwr, ac yn Ddirprwy - Faer tref Caerfyrddin yn ei dro hefyd.

Ond, nid syndod efallai bod cyfrwng y ddrama wedi chwarae rhan mor bwysig yn mywyd y "crwt o'r Efailwen." Troediodd bob llwyfan bron yng Nghaerfyddin a'r cylch mewn cynyrchiadau drama gan godi cyllid i bob math o achosion da lleol ac elusennau.

Pan wahoddwyd Miss Norah Isaac gan Gyngor Celfyddydau Cymru i lunio rhaglen i ddathlu cyfieithiad o'r Testament Newydd yn1975, dewisodd 8 o'i chyn fyfyrwyr colegol o wahanol rannau o Gymru i gyflwyno'r rhaglen. Dewisodd Lloyd i gynrychioli Bro Caerfyrddin, ac mae'n dal i gofio'r straen o ddal un o'r beiblau trymaf yng Nghymru dan ei fraich tra'n chwarae rhan yr Esgob William Morgan mewn 51 o gapeli ac eglwysi ledled Cymru.

Bu cyngherddau Nadolig uchelgeisiol a phoblogaidd tros ben yng nghapel Heol Awst Caerfyrddin am flynyddoedd lawer gyda Lloyd yn actio nifer o'r prif rannau. Droeon yr ymgymrodd â rôl enfawr "Ebenezer Scrooge" yng nghyfieithiad Cymraeg stori enwog Charles Dickens, "Carol Nadolig", gyda rhan ei bartner busnes, "Jacob Marley", yn cael ei chwarae bob tro gan y cyfrifydd lleol a'r henuriad Brin Enoch - disgynnydd i deulu Jac Tŷ Isha (John Hughes), un o arweinyddion ifanc Merched Beca yn ardal Tymbl a garcharwyd o'r herwydd am ugain mlynedd yn Tasmania bell. Pan ddathlodd Cymdeithas capel Heol Awst Gŵyl Ddewi yng Nghaffi Beca y llynedd doedd neb balchach na Lloyd fod Brin yn bresennol hefyd ar dir a daear yr Efailwen, ac yntau bellach yn gant oed heini.

I godi arian i Eisteddfodau'r Urdd, bu'n actio mewn sawl pantomeim gyda'i gyfaill Gareth Evans, prifathro cyntaf erioed Ysgol Uwchradd Bro Myrddin, Caerfyrddin. Esgorodd ei cyfeillgarwch ar ganiatâd i ddefnyddio Cleddyf Efailwen yn seremoni cadeirio'r bardd yn eisteddfod Ysgol Bro Myrddin.

Bu Lloyd am flynyddoedd hefyd yn actio'n broffesiynol i gwmniau teledu Pontcanna, H.T.V., a'r B.B.C. mewn cyfresi fel "TU FEWN...TU FAS", "GLAN HAFREN", a "POBOL Y CWM". Profodd fwyniant hefyd o gymryd rhan yng nghomediau "NUTS AND BOLTS" a "HIGH HOPES".

Lliaws o bobl bellach gafodd weld a chyffwrdd Cleddyf Efailwen, a gwelwyd erthygl amdani ers meitin ym mhapur bro Caerfyrddin, "Cwlwm". Byddai Lloyd hefyd yn ei chludo'n ôl yn dawel fach i Fro Beca yn gyson ar hyd y blynyddoedd.

Un o drysorau llyfryddol Lloyd yw copi prin a chynhwysfawr o waith Henry Tobit Evans — "Rebecca And Her Daughters" a gyhoeddwyd yn 1910. Does dim dwywaith

amdani - rhydd dystiolaeth rymus o bresenoldeb eang cwmnioedd amrywiol o filwyr trwy orllewin Cymru a thu hwnt ym merw Terfysg Beca, gyda geiriau fel “dragoons, regiment of foot, a fusiliers” yn frith ar y dalennau. Cyfeiria at “blismyn Llundain” a bod cwmnioedd o filwyr yn cael eu cludo dros y dŵr o harbwr Bryste i harbwr Abertawe. Yn wir, roedd pethe’n goch’ ma, gyda deuddeg tollborth yn amgylchynnu tref Caerfyrddin yn unig!

Mae’n sôn ymhellach bod gof 80 oed Efailwen, Morris Davies, wedi ei garcharu yng ngharchar tywyll Caerfyrddin am dri mis am iddo agor yr Efail fin nos wedi i Ferched Beca fynnu benthyg rhagor o forthwylion trwm i ddinistrio’r tollty a’r gât.

Ymosodwyd ar dollborth yr Efailwen dair gwaith ac mae tystiolaeth o bresenoldeb catrawd o filwyr yn Arberthvyn fuan ar ôl un ymgyrch. A fu ymweliad â’r Efail yn fuan wedyn? A orfodwyd i’r gof bedoli ceffyl rhyw filwr? A adawyd cleddyf yn yr Efail trwy esgeulustod? Ai llithro’n naturiol i lwch yr ardd wnaeth y cleddyf yn nhreigliad amser, ynte ei chuddio? Erys yr atebion ar awelon Bro Beca. Ond saif un ffaith mewn gole llachar yn ôl Lloyd — mae’r cleddyf yn perthyn yn bendant i gyfnod cyffrous Terfysg Beca.

Gyda dyfodiad cerflun newydd sbon danlli TWM CARNABWTH eleni, dyma’r amser perffaith i wireddu hen ddymuniad Lloyd i Gleddyf Efailwen ddod adre i aros. Mae e nawr yn trosglwyddo’r cleddyf i freichiau gofalus a sicr Cymdeithasau Gymraeg Bro Beca. Cartrefir hi ymhlith casgliad cyfoethog CAFFI BECA, a saif nid yn unig fel cysylltiad uniongyrchol a grymus a chyfnod cyffrous Ymgyrch Beca, ond yn atgof parhaus hefyd o ddewrder, aberth drud, a goruchafiaeth Twm Carnabwth a holl Ferched Beca o 1839 tan ddeddf 1844 arweiniodd at waredu ein gwlad o’r tollbyrth dieflig.
*L.L.J.*



Lloyd Jones yn cyflwyno cleddyf Efailwen I Robert James

## Mae Gŵyl Canol Dre yn ôl eleni eto!

Ar dydd Sadwrn, 12fed o Orffennaf, bydd yn bleser mawr gan Fenter Gorllewin Sir Gâr gael estyn croeso i bawb i Ŵyl Canol Dre, sy’n dychwelyd i Barc Myrddin yng Nghaerfyrddin am y chweched tro ac mae hi’n argoeli y bydd Gŵyl 2025 yn well ac yn fwy nag erioed! Eleni, bydd yna ddau lwyfan gyda gwledd o gerddoriaeth fyw gan Yws Gwynedd, Huw Chiswell, Dros Dro, Dadleoli, Gwilym Bowen Rhys, Pwdin Reis, Iwtopia a Chôr Seingar. Bydd hefyd perfformiadau gan fandiau cyffrous lleol Alys a’r Tri Gŵr Noeth a Coron Moron a disgyblion ysgolion yr ardal yn dangos doniau’r to iau. Ar wahân i gerddoriaeth, bydd hefyd amrywiaeth o weithdai, chwaraeon, celf a llenyddiaeth, bar, bwyd a diod, a stondinau’n gwerthu nwyddau lleol ar ein ‘stryd fawr’ fach!

“Ers cynnal yr Ŵyl gyntaf yn 2018, mae wedi tyfu’n flynyddol a daeth dros 4,500 o ymwelwyr llynedd, a’r gobaith yw y gwelwn ni fwy o ymwelwyr eto eleni. Dyma’r brif Ŵyl Gymraeg yn y Gorllewin ac mae’n denu pobl oddi ar draws yr ardal gyfan i’r dref.” medd Nia ap Tegwyn, Uwch-Swyddog Datblygu Menter Gorllewin Sir Gâr. “Mae mynediad yn rhad ac am ddim a diolch i Gyngor Sir Gâr, bydd meysydd parcio’r Cyngor yn y dref hefyd yn cynnig parcio di-dâl am y dydd.”

Bydd y maes yn agor ei drysau am 11 yn y bore a bydd y bwrlwm yn parhau tan 9 o’r gloch yn y nos.

Cofiwch gadw llygad ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol Gŵyl Canol Dre ac o gwmpas y dref i glywed y newyddion diweddaraf am yr Ŵyl.

Os oes gennych gwestiwn am yr Ŵyl, cysylltwch â ymholiad@mgsg.cymru



# Y CARDI BACH, BACH

**Papur Bro Dyffryn Taf**

**CARIAD O BETH CARDI BACH**

## YSGOL HAFODWENOG

**Stiwdio 47**

Diolch i Claire Jones am ddod i'r ysgol i wneud gweithdy cerdd gyda'r disgyblion.  Cafodd y disgyblion gyfle i fod yn fentrus a chreadigol.

**Eisteddfod y Garreg Las**



Llongyfarchiadau i Cari-Haf, Eres, Lois, Marged a Sara am gymryd rhan yn y ddawns flodau yng Ngŵyl Cyhoeddi'r Eisteddfod y Garreg Las yn Arberth yn ddiweddar. Da iawn chi.

**Eisteddfod yr Urdd**





Llongyfarchiadau mawr i bob disgybl a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Mharc Margam.
Iwan Bowen - clocsio unigol i fechgyn blwyddyn 6 ac iau.
Grŵp Dawnsio Gwerin blwyddyn 6 ac iau - 2il Parti Unsain - 2il
Grŵp Clocsio - 3ydd

Diolch i bawb a fu'n hyfforddi, rhieni ac athrawon.

## YSGOL BANCYFELIN

**Ymweliad Fferm Cefn Crwth**




Diolch i Aled, Lowri Siôn a'r merched am fore difyr ac addysgiadol ar y fferm. Cafwyd amser bendigedig yn dysgu am yr anifeiliaid gwahanol, yr amgylchedd ac am bwysigrwydd y tir. Mwynhaodd ddisgyblion ifancaf yr ysgol glywed am y peiriannau gwahanol a gweld y peiriant robotaidd oedd yn bwydo'r lloi. Diolch o galon am y gwahoddiad caredig i ymweld.

**Cymdeithas Rieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol**



Diolch o galon i Gymdeithas Rieni, Athrawon a Ffrindiau yr Ysgol am brynu beiciau cydbwyso a thŷ bach twt i'r ysgol. Mae'r plant yn llawn cyffro ac yn edrych ymlaen yn fawr i'w defnyddio.

**Trip Llangrannog**



Mwynhaodd ddisgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 gyfnod preswyl gwych yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog cyn hanner tymor. Ymhlith y gweithgareddau cyffrous roedd marchogaeth ceffylau, rhaffau uchel, ceirt modur

a gwibgartio — pob un yn cynnig cyfle i'r plant herio'u hunain a datblygu sgiliau newydd. Roedd pawb yn llawn brwdfrydedd ac yn barod i roi cynnig ar bopeth! Roedd yr ymweliad yn llawn hwyl, antur ac atgofion arbennig a fydd yn aros yn y cof am amser maith.

# YSGOL LLYS HYWEL



Aeth disgyblion Bl. 5 a 6 i Wersyll Llangrannog ar ddiwedd hanner tymor diwethaf. Mwynhaodd y grŵp y gweithgareddau'n fawr a chafon nhw brofiadau bythgofiadwy.

**Criced**



Da iawn i'r uchod/isod am gystadlu yng nghystadleuaeth criced ysgolion cynradd clwstwr Dyffryn Taf. Llongyfarchiadau i un o'n timau am ddod yn ail.

**Gweithdy GIG**



Profiad newydd i'r plant tymor yma oedd dysgu am y gwahanol swyddi o fewn y GIG a'r profiadau amrywiol sydd ar gael trwy weithio yn yr GIG. Roedd y plant wedi syfrdanu faint o swyddi oedd ar gael o fewn GIG. Roedd y plant wedyn wedi creu posteri i arddangos y gwahanol sgiliau, ffeithiau a swyddi oedden nhw wedi dysgu amdano.

**Guto Gweinidog**



Roedd y plant yn ffodus iawn i gael sesiwn a stori foesol gyda Guto Llywelyn o'r Tabernacl Hendy-gwyn. Ond yn anffodus dyna ein sesiwn olaf gyda fe cyn iddo symud ymlaen i ardal newydd. Pob lwc Guto a diolch!

**Fy mhlat bwyd**

Diolch i CFfI Sir Gâr am drefnu a chynnal gwahanol sesiynau i ymwneud ą bwyd, a'r daith mae'r bwyd yna wedi cael. Roedd llawer o stondinau a gweithgareddau i'r plant gylchdroi yn ystod y prynhawn. Profiad gwych i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6.

**Trip Rotari i Fferm Ffoli**

Diolch i Rotari Hendy-gwyn ac Arberth am y rhodd caredig er mwyn galluogi rhai o'n blant i fynd ar drip i Fferm Ffolli. Roedd y plant wedi mwynhau mas draw.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchiadau mawr i Sonny Evans am dderbyn y drydedd wobr am greu pyped yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dur a Môr. Hyfryd oedd gweld ei waith fel rhan o'r arddangosfa Celf a Chreffft ar y maes. Rydym yn falch iawn fel ysgol hefyd o berfformiadau yr holl blant a fu'n cystadlu gyda ni yno ar y llwyfan cenedlaethol sef: Elijjah Jenner-Diong yn yr Unawd Blwyddyn 3 a 4 a'r Unawd cerdd dant Blwyddyn 3 a 4, i Cadi Jones yn yr Unawd Alaw Werin Blwyddyn 5 a 6, ac i griw y Partion Cerdd Dant ac Unsain Blwyddyn 5 a 6. Diolch yn fawr i'r staff am roi o'u hamser i hyfforddi a chefnogi'r plant, gyda diolch yn arbennig i Mrs Ceirios Jenner.



Sonny Evans



Parti Cerdd Dant

**Chwaraeon**
Bu nifer fawr o blant Blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu yng nghystadleuaeth criced Dyffryn Taf a gynhaliwyd yn Hendygwyn yn ddiweddar. Hyfryd oedd gweld timoedd cyntaf y bechgyn a'r merched yn dychwelyd gyda medalau.



Pencampwyr Criced Cwm Taf - Tim y Merched YGJ

**Ymweliadau**
Aeth dosbarthiadau Blwyddyn Olwen, Hywel, Gwenllian ac Arthur ar daith i'r Gerddi Botaneg i ddysgu am fywyd gwyllt yn ein cynefin.
Bu dosbarthiadau Pwyll, Myrddin a Culhwch yn crwydro cymuned San Clêr yn chwilota am dystiolaeth o'r twrch trwyth, fel rhan o'u thema 'Twrch'.

**Ymwelwyr**
Daeth cwmni 'New Directions' i'r ysgol i gynnal sesiwn hyfforddi gyda dosbarthiadau Pwyll a Myrddin. Thema'r ddwy sesiwn oedd 'Achub Bywyd' ac 'Arwyddo'.

**Neges Ewyllys Da**
Cynhaliwyd gwasaneth arbennig i ddathlu diwrnod Ewyllys Da yr Urdd. Bu dosbarthiadau Cam Cynnydd 3 yn trafod y neges a rannwyd ar y cyfryngau cymdeithasol gyda'u plant. Y neges eleni oedd pwysigrwydd hawl pob plentyn i beidio â byw mewn tlodi.

**Gwobrau Dylan Thomas**




Bu disgyblion o ddosbarth Branwen yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth gyfansoddi gyda Phrifysgol Abertawe i ddathlu diwrnod cofio Dylan Thomas. Y thema oedd 'Fy Atgofion o'r gwyliau'. Llongyfarchiadau i Chloe Allen ar ddod yn fuddugol, ac i Rhys Cook a Teleri Hewens am ddod yn gydradd ail. Ysgrifennodd y tri ohonynt gerddi hyfryd yn disgrifio eu hatgofion o ddiwrnod ar y traeth.

# YSGOL BRYNCONIN

## Gwyl Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las – 17eg Mai 2025

Braf oedd gweld teuluoedd o Ysgol Brynconin yn rhan o orymdaith a seremoni cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026 yn Arberth ar fore Sadwrn, Mai 17eg. Profiad a hanner oedd cael gweld, profi a bod yn rhan o rywbeth arbennig ac hanesyddol.




**Gweithgaredd Llafar Llawen**
Teithiodd grŵp o blant Blwyddyn 4 i Ganolfan Hermon ar ddydd Mawrth, 20fed o Fai er mwyn cymryd rhan mewn gweithgaredd hybu darllen a llafar. Cafwyd hwyl yn dysgu mwy am lyfrau. Gweithgaredd a drefnwyd ar ran Clwstwr Ysgol Bro Preseli a Chaer Elen oedd hon.

**Stondin Hufen Iâ**
Diolch i'r PTA am drefnu stondin hufen iâ ar brynhawn Gwener, 23ain o Fai. Codwyd swm dda o £100 a byddwn yn defnyddio'r arian i brynu adnoddau coginio i'r Ysgol.

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**
Llongyfarchiadau enfawr i'r plant fu'n cystadlu yn y gân actol am wneud mor dda yn Eisteddfod yr Urdd dros hanner tymor. Fe wnaeth pob un gystadlu i safon uchel ac rydym yn browd iawn o ymdrechion pob un. Profiad a hanner i bawb oedd cael perfformio a chystadlu ar lwyfan cenedlaethol.

Llongyfarchiadau enfawr i Magi John am gipio nifer o wobrau yng nghystadlaethau Eistedddfod T ac am ddod yn drydydd yn y Serameg. Llongyfarchiadau enfawr hefyd i Ela Blethyn am gipio y drydydd wobr am ei gem-





**Twrnament Criced**
Da iawn i dimoedd criced yr Ysgol am gystadlu mor dda yn nhwrnament criced yn Llechryd ar ddydd Mercher, 4ydd o Fehefin.



**Llongyfarchiadau a Phob Lwc**
Newyddion ffantastig; mae Anwen, Ffion a Poppy wedi cael eu dewis i dîm rygbi merched Sir Benfro ac mae Archie wedi cael ei ddewis chwarae i dîm rygbi bechgyn Sir Benfro. Mae hyn yn gamp a hanner ac estynnwn llongyfarchiadau enfawr i'r pedwar.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Eisteddfod Celf a Chrefft Rhanbarth**
Braf oedd gweld nifer o ddisgyblion yn cystadlu a dangos eu doniau creadigol yng nghystadleuaeth celf a chrefft yr Urdd eleni.

Llongyfarchiadau mawr i Amelia Churchill a ddaeth yn 2il yn y lluniadu 2D Bl.5 a 6. Da iawn ti!

**Thema: Dewch i ddathlu**
Yn dilyn ein thema 'Dewch i ddathlu' y tymor yma, mae disgyblion y Dysgu Sylfaen wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer eu parti yn y goedwig. Maent wedi bod yn creu gwahoddiadau, addurniadau, anrhegion, dylunio papur lapio, peintio llien bwrdd a dysgu sut i wneud sudd ysgawen ar gyfer y parti.

Mae disgyblion Dysgu Craidd wedi bod yn brysur yn ymchwilio mewn i hanes y pedair ysgol a gauodd i greu Ysgol Bro Brynach. Maent wedi dysgu am y protestiadau a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod hwnnw, ac wedi mynd nôl mewn amser i greu placards a siant i leisio'i barn. Crëwyd deiseb a dysgwyd am fanteision ac anfanteision ymgyrchoedd protest, yn ogystal â phrotestiadau hanesyddol yng Nghymru. Mae'r disgyblion yn edrych ymlaen at gwblhau heriau amrywiol sy'n ymwneud â hanes yr ysgol ers iddi agor yn 2004, ac yn brysur iawn yn paratoi ac yn ymarfer ar gyfer ein sioe 'Capsiwl Amser' ar ddiwedd y tymor!

**Llangrannog**
Cafodd blant Dosbarth Cynin amser braf yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog ar ddiwedd mis Mai wrth iddynt fwynhau amryw o brofiadau anhygoel. Cafwyd amser arbennig yn mwynhau llu o weithgareddau newydd a chyffrous a chymdeithasu yn y Gymraeg. Uchafbwynt y daith oedd cael cerdded draw i bentref Llangrannog a mwynhau hufen ia ar y traeth. Diolch i wersyll Llangrannog am amser arbennig!



Dosbarth Cynin yn Llangrannog



**Ymwelwyr:** Braf oedd gallu croesawu Shirley atom eto



y mis yma i gynnal gwasanaeth am bwysigrwydd bod yn hapus. Cafwyd ein hymweliad olaf gan y Parchedig Guto Llywelyn, pan soniodd am y Samariad Trugarog a Joseff a'i frodyr. Mae Guto wedi bod yn ymweld â'r ysgol ers 12 mlynedd. Hoffwn estyn ein diolch iddo am ei gefnogaeth i'r ysgol. Pob hwyl i chi Guto yn eich gofalaeth newydd a diolch am bopeth.



Amelia Churchill a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd


LYNDON GEORGE



**ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL**

**MOT**

**•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4**

**Offer Diagnostig Diweddaraf**



**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPÂR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mehefin 2025** | | |
| Mer 18 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |
| Llun 30 | **Gwesty Warner, Nidd Hall, Swydd Efrog** | 5* |
| **Gorffennaf 2025** | | |
| Maw 22 a Mer 23 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Iau 24 | **Sidmouth** | 5* |
| **Awst 2025** | | |
| Gwe 8 | Eisteddfod | 1 |
| **Medi 2025** | | |
| Llun 1 | **Swydd Ceint, Gardd Lloegr** | 5* |
| Llun 15 | **Tai Hanesyddol a Gerddi y Gogledd Orllewin** | 5* |
| Gwe 20 | **Penwythnos Siopa Uwchsonig (Concorde)** | 2 |
| Llun 23 | **Iwerddon - Swydd Mayo** | 6* |
| **Hydref 2025** | | |
| Llun 6 | **Gwesty Warner, Cricket St. Thomas** | 5* |
| Llun 13 | **Ardal y Llynnoedd** | 5* |
| Sad 25 | *Sioe Warhorse, CMC* | 1 |
| **Tachwedd 2025** | | |
| Gwe 7 | **Twrci a Tinsel - Torquay** | 5* |
| Sad 15 | *Sioe Riverdance 30, Caerdydd* | 1 |
| Sad 15 | *Sioe Gerdd Top Hat, Caerdydd* | 1 |
| Sad 29 | **Goleuadau Nadolig Palas Blenheim a Windsor** | 2 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Rhagfyr 2025** | | |
| Sad 6 | Marchnadoedd Nadolig Caerfaddon | 1 |
| Maw 16 | *Rob Brydon, Arena Utility, Caerdydd* | 1 |
| Sad 13 | Nadolig yng Nghanolfan Arddio Yr Hen Rheilffordd ger Aberhonddu | 1 |
| Sad 13 | *Sioe Gerdd - Mary Poppins, CMC a Bae Caerdydd* | 1 |
| **Ionawr, Chwefor neu Mawrth 2026** | | |
| Sad ?? | **Mamma Mia - Y Parti, 02 Llundain (I'w gadarnhau)** | 2 |
| **Ionawr 2026** | | |
| Sad 10 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |
| **Chwefror 2026** | | |
| Gwe 6 | **Torquay - Cynheswr Gaeaf** | 4* |
| Sad 7 | *Sioe Gerdd - Here & Now (Cerddoriaeth Steps)* | 1 |
| Sad 14 | **Sioe Gerdd - Paddington, Llundain a Windsor** | 2 |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | 5* |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Tina Turner, Caerdydd* | *1* |
| **Mawrth 2026** | | |
| Gwe 20 | **'A Fab 4 Days in Liverpool'** | 4* |
| **Ebrill 2026** | | |
| Llun 13 | **'Avon's Calling'** | 5* |
| Sul 19 | **Te Prynhawn Brenhinol yn Windsor** | 2 |

**2025 yw ein pen-blwydd yn 60 oed. Mae siawns i ennill Taleb Teithio ar bob taith yn ystod y flwyddyn.**

***Gwasanaeth Drws i ddrws ar y teithiau yma**

**Gallwch archebu ar lein, dros y ffôn, neu mewn person yn ein swyddfa**

SPAN

## Mae Côr Pawb yn dychwelyd: Dathlu Côr Un Diwrnod o Gymuned a Chreadigrwydd.

Mae Celfyddydau SPAN wrth eu bodd o gyhoeddi y bydd Côr Pawb yn cynnal digwyddiad corawl undydd llawn llawenydd gan wahodd pawb i godi eu lleisiau a chydganu i ddathlu cymuned, creadigrwydd, a chysylltiad.

Mae'n digwydd yn HaverHub, lleoliad cymunedol bywiog yng nghanol Hwlffordd, amcan y  cyfarfod cerddorol unigryw hwn yw bod yn gynhwysol, yn ddyrchafol ac yn agored i bawb. P'un ai 'ch bod chi'n ganwr profiadol neu'n hollol newydd i gerddoriaeth gorawl, hanfod Côr Pawb yw troi fyny, ymuno, a chael hwyl.

Dan arweiniad dau arweinydd côr ysbrydoledig, bydd y diwrnod yn cynnig cyfle i'r cyfranogwyr ddysgu caneuon newydd, gwrthgyferbyniol, mewn amgylchedd hamddenol a chyfeillgar. Mae'r gweithdy'n cyrraedd yr anterth gyda rhannu anffurfiol am 4yp, lle mae teulu a ffrindiau'n cael eu gwahodd yn gynnes i ddod i fynychu a mwynhau perfformiad bach o'r hyn y mae'r grŵp wedi'i greu gyda'i gilydd yn ystod y dydd.

Mae hwn yn ddigwyddiad rhad ac am ddim, ond mae lleoedd yn gyfyngedig ac mae'n rhaid archebu ymlaen llaw trwy wefan Celfyddydau SPAN. Anogir y cyfranogwyr i ddod â chinio parod a chwpan y gellir ei hailddefnyddio ar gyfer diodydd. Mae'r drysau'n agor am 10:15yb ar gyfer cofrestru, a bydd canu yn dechrau'n brydlon am 10:30yb.

Mae Côr Pawb yn fwy na sesiwn corawl – mae'n ddathliad o agosatrwydd, creadigrwydd, a'r llawenydd syml o godi'ch llais gyda phobl eraill. Ymunwch â ni am ddiwrnod twymgalon o gytgord, chwerthin, ac ysbryd cymunedol yn Hwlffordd.


Lleoliad:
HaverHub,
Yr Hen Swyddfa Bost,
12 Stryd y Cei,
Hwlffordd
SA61 1BG

## Ymgyrch Codi Cerflun Twm Carnabwth



Robert James, Cadeirydd Ymgyrch Codi Cerflun Twm Carnabwth yn cyflwyno print o "Whalu'r iet yn shils" i Brian Jones, Castell Howell.

## Penblwydd hapus yn 60 oed



Penblwydd hapus a dymuniadau gorau i Clive Edwards a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 60 oed ar Fehefin 27ain.


# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd Hapus iawn i Esther Roblin yn 1 oed ar 7fed o Fehefin. Merch i Daniel an Alice Roblin. Wyres i Delyth a Michael Roblin, Clunderwen



Penblwydd Hapus i Llywelyn, Bryn Ambor, Trelech oedd yn dathlu ei benblwydd yn 5 oed ar ddechrau'r mis.






Penblwydd hapus i Glyn Biggs (ŵyr i Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon) fydd yn 11 oed ar y 21ain o Orffennaf. Cariad oddi wrth y teulu yng Nghymru a Warrington. Pob lwc iddo yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi.



Penblwydd hapus i Osian Snelson, Caerfyrddin, a fydd yn 9 oed ar Orffennaf 4ydd. Cariad mawr wrth Dad, Mam, Gwilym a Caleb; Tadcu a Mamgu Cwmfelin; Taid Dinbych a'r teulu oll.

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost: enquiries@allpump.co.uk

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

DAIL PREN
Crefftwaith pren, arwyddion a gwaith ysgythru laser
Tomos Lewis
dailpren.co.uk | dailpren@hotmail.com

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol: 07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab



Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS



Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



| | | | |
|---|---|---|---|
| Maw 1af Gorffennaf | LLANDUDNO a YNYS SEIRIOL YNYS MON | £585 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Gorffennaf | MORDAITH ar AFONYDD RHINE a MOSELLE yn yr ALMAEN | £1,950 | 9 Diwrnod |
| Sad 12fed Gorffennaf | CESTYLL a GWARTHEG UCHELDIR YR ALBAN | £720 | 6 Diwrnod |
| Iau 17eg Gorffennaf | Taith Fyr I'r COTSWOLDS | £310 | 3 Diwrnod |
| Llun 21ain Gorffennaf | GORORAU CYMRU | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 27ain Gorffennaf | AGER, JIN a'r NEW FOREST yn HAMPSHIRE | £530 | 5 Diwrnod |
| Gwe 1af Awst | Taith i Stiwdio yr enwog CORONATION STREET | £380 | 4 Diwrnod |
| Sad 2ail Awst | AWSTRIA a'i Olygfeydd Godidog yn LERMOS a INNSBRUK | £1,200 | 8 Diwrnod |
| Sul 10fed Awst | NEWCASTLE a NORTHUMBRIA | £645 | 6 Diwrnod |
| Gwe 15fed Awst | BRYSTE a CHAERFADDON / BRISTOL and BATH | £450 | 4 Diwrnod |
| Llun 18fed Awst | ?????????? TAITH DDIRGEL yr HAF ?????????? | £650 | 5 Diwrnod |
| Sul 24ain Awst | RHYFEDDODAU WATERFORD yn IWERDDON | £635 | 5 Diwrnod |
| Iau 28ain Awst | NOTTINGHAM ac ARDAL ROBIN HOOD | £420 | 4 Diwrnod |
| Llun 1af Medi | GOLEUANNAU BLACKPOOL ILLUMINATIONS | £405 | 5 Diwrnod |
| Gwe 5ed Medi | Crwydro BUXTON a BAKEWELL (Ystafelloedd Sengl yn unig) | £445 | 4 Diwrnod |
| Sul 7fed Medi | ARDAL y LLYNNOEDD. Taith mewn Cwch Ager ac ar Dren Ager | £645 | 5 Diwrnod |
| Sul 14eg Medi | LLANDUDNO a Thaith ar Rheilffordd Ucheldir Cymru | £650 | 5 Diwrnod |
| Llun 15fed Medi | Taith ar Dren Ager yn NORFOLK ac ymweliad a Sandringham | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 21ain Medi | LLYN GARDA a'r DOLOMITES yn yr EIDAL | £1,350 | 10 Diwrnod |
| Gwe 26ain Medi | TORQUAY a CHASTELL POWDERHAM | £430 | 4 Diwrnod |
| Gwe 3ydd Hyd | ???????? TAITH DDIRGEL YR HYDREF ???????? | £455 | 4 Diwrnod |
| Llun 6ed Hyd | GOLEUANNAU BLACKPOOL ILLUMINATIONS | £405 | 5 Diwrnod |
| Iau 9fed Hyd | Chwedlau a Thirweddau YNYS MANAW | £665 | 6 Diwrnod |
| Gwe 10fed Hyd | Port Isaac, Padstow, Mevagissey a LOOE ar Afordir CERNYW | £370 | 4 Diwrnod |
| Gwe 17eg Hyd | Elvis Presley, Tina Turner a Lionel Richie yn BABBACOMBE | £315 | 4 Diwrnod |
| Sul 19eg Hyd | Rhydychen / Oxford, Palas Blenheim a ardal Midsomer Murders | £540 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Hyd | WESTON SUPER MARE | £385 | 4 Diwrnod |
| Sul 26ain Hyd | TAITH DDIRGEL i IWERDDON | £685 | 6 Diwrnod |
| Llun 27ain Hydref | LUDLOW a IRONBRIDGE | £545 | 5 Diwrnod |
| Llun 3ydd Tach | BELGRAVE SANDS " Torquay & Tinsel" | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwe 7fed Tach | DERBY ac ymweld a Marchnad Nadolig CHATSWORTH HOUSE | £335 | 3 Diwrnod |
| Iau 13eg Tach | "HOLLY and MISTLETOE yn LLANDUDNO | £565 | 5 Diwrnod |
| Gwe 21ain Tach | Marchnadoedd Nadolig MAENCEINION a CAER | £305 | 3 Diwrnod |
| Mon 24ain Tach | Hud y NADOLIG yn MORECAMBE | £520 | 5 Diwrnod |
| Gwe 28ain Tach | TREN y GOLEUADAU NADOLIG yn TORQUAY | ££80 | 4 Diwrnod |
| Gwe 5ed Rhag | PENWYTHNOS NADOLIGAIDD YN LLUNDAIN | £325 | 3 Diwrnod |
| Gwe 5ed Rhag | TREN y GOLEUADAU NADOLIG yn PAIGNTON | £380 | 4 Diwrnod |
| Gwe 12fed Rhag | CAROLAU NADOLIG, NEUADD FRENHINOL ALBERT, LLUNDAIN | £420 | 3 Diwrnod |
| Gwe 12fed Rhag | NADOLIG CYNNAR yn BABBACOMBE | £320 | 4 Diwrnod |
| Llun 15fed Rhag | Marchnadoedd NADOLIG BRUGES, GHENT a LILLE | £695 | 5 Diwrnod |
| Maw 30ain Rhag | Dathlwch y FLWYDDYN NEWYDD YN PAIGNTON | £585 | 4 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

CYFRES Wenfro

# Blodau'r enfys

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Mae Mam-gu Iet-wen wedi ennill cystadleuaeth i greu arwydd newydd i'w chartref yn y sioe leol, ac mae wedi ei addurno gyda blodau o bob lliw a llun. Enwau blodau melyn sydd ar y saith arwydd arall.
**Fedrwch chi eu henwi?**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/07/25**

Tomi Vaughan o Grymych yw enillydd Cystadleuaeth Oen Glanwen.
Ateb: Oen rhif 11 oedd oen bach Glanwen, y ddafad.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓒ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2025

Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

# Clwb Rygbi Hendygwyn

*Suzanne Davies*

Tîm Merched dan 14



Bu'r merched yn chwarae yn erbyn tîm y Sosban yn Rhydaman yn rownd derfynol y Plat yn ddiweddar, gan golli 28 – 24 mewn gêm gyffrous iawn. Da iawn ferched, daliwch ati.

Tîm Merched dan 12
Bu'r merched yn chwarae yn erbyn Hebogiaid Ogwr yn Rhydaman yng Nghwpan Dwyrain Cymru yn ddiweddar, gan sicrhau gem gyfartal 24 – 24. Dyna beth oedd gem a hanner, da iawn ferched.



Tîm Merched dan 12

Tîm Teigrod Dwy Sir / Un Hwb



Llongyfarchiadau i'r canlynol sy'n rhan o dim Teigrod y Ddwy Sir/ Un Hwb sef (rhes gefn) Elin, Poppy P, Poppy H, Anwen a (rhes flaen) Ruby, Daisy, Polly, Ffion a Mari.

Yn absennol o'r llun oherwydd anaf mae Niamh.

---

*Clwb Rygbi San Cler - parhad o dudalen 40*

Gwobrau :-

Brandon Williams - Chwaraewr y Flwyddyn, Chwaraewr y Flwyddyn y Chwaraewyr a Chwaraewr y Flwyddyn y Cefnogwyr.

Dafydd Millard - Chwaraewr y Flwyddyn yr hyfforddwyr (Blaenwyr)

Sam Miles - Chwaraewr y Flwyddyn yr hyfforddwyr (Olwyr)

Gethin Lewis - Y chwaraewr sydd wedi datblygu fwyaf

Dafydd Waters – Sgoriwr fwyaf o geisiau

Malcolm Herbert - Dyn Clwb y Flwyddyn

Fe wnaethom fanteisio ar y cyfle i ddiolch i Rhodri Jones, ein prif hyfforddwr, sydd wedi bod gyda ni ers 2018, gan ddiolch iddo am ei gefnogaeth a'i longyfarch ar ei lwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd Mike Jones yn cymryd y rôl o brif hyfforddwr ar gyfer y tymor nesaf.

Cafodd ein physio hirsefydlog, Wendy Vaughan, ei chydnabod ar ôl 24 mlynedd o wasanaeth diwyd i'r clwb a chafodd ei gwobrwyo'n haeddianol fel Aelod Oes.



Delme Thomas yn cyflwyno nifer o wobrau i Brandon Williams.

Cwblhaodd ein tim ieuenctid (welir yn y llun isod) yn gryf wedi iddynt orffen yn 3ydd yn Nghynghrair Gorllewin Sir Gaerfyrddin adeg y Nadolig. Aethant ymlaen i fod yn ddiguro ar ôl Nadolig yng Nghynghrair B Sir Gaerfyrddin.

Llongyfarchiadau i'r bechgyn a phob lwc i'r rhai sy'n symud i rygbi hŷn tymor nesaf.

Diolch enfawr i bawb yn y clwb am eich cefnogaeth dros y tymor a edrychwn ymlaen at eich gweld ym Mharc Griffith Jones yn fuan.

*Gwyndaf Williams*
*Lluniau: Chris Rees*



Tîm ieuenctid Clwb Rygbi San Cler

CLWB RYGBI SAN CLER

# CHWARAEON

## Clwb Pel-droed Llanboidy

**Tymor 2024-25**
Mae tymor 2024-25 wedi dod i ben i dimau 1af ac 2il Clwb Pêl-droed Llanboidy, gyda timoedd iau'r Clwb yn chwarae mewn amryw o gystadlaethau dros yr Haf.

**Tîm 1af**
Bu ein tîm cyntaf yn chwarae yn Adran 1 Ceredigion yn 2024-25 o dan y capteiniaid Gethin Scourfield a Steffan Williams. Chwaraewyd 22 gêm yn y gynghrair, gyda'r tîm yn ennill 10, 2 gêm gyfartal a cholli 10, gan orffen yn y 6ed safle. Yn ogystal â hyn, fe wnaeth y tîm gyrraedd rownd derfynol Cwpan y Bay Cup, gan golli yn y funud olaf yn anffodus. Diolch yn fawr iawn i Dafydd Makepeace a Rob Morgan am eu gwaith gyda'r tîm cyntaf eleni eto. Dyma ganlyniadau'r tair gêm ddiwethaf y tymor:

Mai
10fed: Llanboidy 2-1 Sêr Dewi (Calum Syddall, Luca Jones)
17eg: Llanboidy 3-3 Felinfach (Jamie Blewitt, Gethin Scourfield 2)
24ain: Llechryd 2-1 Llanboidy (Daf Jones)



Tîm cyntaf yn erbyn Llechryd



Diwrnod gwbrwyo'r Adran Iau

**2il Dîm**
Chwaraeodd yr ail dîm yn Adran 3 Ceredigion yn 2024-25 o dan arweinyddiaeth Chris Bowen. Gorffennwyd yn y 6ed safle, gan chwarae 18 gêm - ennill 7 a cholli 11. Braf oedd gweld nifer o chwaraewyr newydd yn ymuno a'r Clwb ac yn datblygu dros y tymor. Diolch yn fawr iawn i Bruce Scourfield am ei waith ar hyd y tymor yn helpu gyda'r tîm.

**Adran Iau**
Mae tymor yr Adran Iau hefyd yn dod i ben, er hyn mae nifer o gystadlaethau dros yr haf bydd ein timau yn cymryd rhan ynddynt. Ar ddydd Sul, Mai 25ain cynhaliwyd diwrnod gwobrwyo diwedd tymor y timoedd iau, diwrnod llawn hwyl gyda medalau, BBQ a gemau plant yn erbyn y rhieni. Roedd yn gyfle i ddiolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd dros y tymor, ac i'r rhieni i gyd am eu cefnogaeth.

Braf hefyd oedd gweld nifer o chwaraewyr y Clwb yn chwarae i dimau megis timau Merched Hwlffordd ac Ysgolion Sir Gaerfyrddin. Grêt gweld dau o chwaraewyr y tîm dan 8 yn ennill gwobrau; Llew yn ennill Chwaraewr y Flwyddyn a Chwaraewyr y cefnogwyr a Noa yn ennill y chwaraewr mwyaf disglair y flwyddyn.

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

*Rhodri Lewis*



Llew–Ennill dwy wobr gyda Ysgolion Sir Gaerfyrddin



Noa – Ennill gwobr gyda Ysgolion Sir Gaerfyrddin

## Clwb Rygbi San Clêr

Gyda'r tymor y tu ôl i ni, fe wnaethom fanteisio ar y cyfle fel clwb i ddathlu tymor llwyddiannus arall yn y ginio blynyddol a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin ar y 25ain o Fai. Fe wnaethom orffen yn y 5ed safle yn Adran 1 y Gorllewin ar ôl sicrhau 9 buddugoliaeth, 1 gem gyfartal a colli 8 gêm. Roeddem yn falch o ganlyniadau'r tymor, yn dilyn dau ddyrchafiad yn olynol yn y tymhorau blaenorol. Ymunodd ein haelodau oes sef Mr Delme Thomas a Mr Alan "Santa" Reynolds a ni yn ystod y noson a cafwyd adloniant gwych gan y comedïwr Noel James o Abertawe a'r canwr John Baker. *parhad ar dudalen 39*